




GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG  
Gwasanaethau Ambiwylans Cymru  
Welsh Ambulance Services  
University NHS Trust



# CYNLLUN TYMOR CANOLIG INTEGREDIG

FERSIWN: 1.0

# Cynnwys

Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr.....	4
Crynodeb Gweithredol .....	6
Cyflwyniad.....	11
<b>1. Ein Strategaeth Hirdymor.....</b>	<b>11</b>
1.1 Ein Diben.....	11
1.2 Ein Nodau Strategol .....	11
1.3 Ein taith drawsnewid.....	12
<b>2. Ein Prif Gyflawniadau yn 2024/25.....</b>	<b>13</b>
<b>3. Heriau a chyfleoedd sy'n llywio ein cynllun.....</b>	<b>13</b>
3.1 Beth mae ein cleifion yn ei ddweud am ein gwasanaeth? .....	13
3.2 Beth yw blaenoriaethau ein cydweithwyr? .....	14
3.3 Ein cyd-destun gweithredol ac ariannol.....	15
3.4 Beth yw ein sbardunau deddfwriaethol, strategol, ariannol a pholisi? .....	17
3.5 Beth mae ein comisiynwyr yn ei ddweud? .....	19
3.6 Beth yw'r risgiau yr ydym yn eu rheoli? .....	20
3.7 Ein Hamcanion Llesiant wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd .....	21
3.8 Sut rydym yn ffocysu ein cynllun.....	23
<b>4. Ein Cleifion .....</b>	<b>23</b>
4.1 Datblygu ein model gwasanaeth clinigol.....	23
4.2 Cyrchu ein gwasanaethau drwy 111 a 999 .....	25
4.3 Ymateb i argyfwng - 999.....	27
4.4 Gofal integredig o bell a chynllunio gofal – 111 a 999 .....	30
4.5 Ymateb Brys yn y Gymuned.....	32
4.6 Gwasanaethau cludiant di-frys.....	37
4.6.1 Sut y bydd cynlluniau strategol Byrddau lechyd yn effeithio arnom ni? .....	39
4.7 Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb Brys a gweithrediadau arbenigol.....	40
4.8 Gwirfoddolwyr.....	40
<b>5. Ein pobl.....</b>	<b>41</b>
5.1 Proffil ein gweithlu.....	41
5.2 Pobl a Diwylliant .....	42
5.3 Y Gymraeg.....	46
<b>6. Isadeiledd – cyfalaf, fflyd ac ystadau .....</b>	<b>47</b>
<b>7. Ein map digidol a data.....</b>	<b>49</b>
<b>8. Partneriaethau a'r system ehangach .....</b>	<b>52</b>
8.1 Partneriaethau ac ymgysylltu.....	52
8.2 Partneriaeth academiaidd a dysgu democrataidd .....	53
<b>9. Yn seiliedig ar ansawdd, dan arweiniad clinigol .....</b>	<b>56</b>

9.1	Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu Cymru).....	56
9.1.1	Cymryd camau drwy ddull iechyd y boblogaeth.....	58
9.2	Dan arweiniad clinigol.....	60
<b>10.</b>	<b>Gwerth a chynaliadwyedd.....</b>	<b>61</b>
10.1	Rhaglen cynaliadwyedd ariannol.....	61
10.2	Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth.....	63
10.3	Cynaliadwyedd amgylcheddol.....	64
<b>11.</b>	<b>Ein cynllun ariannol.....</b>	<b>65</b>
<b>12.</b>	<b>Cyflawni ein Cynllun.....</b>	<b>68</b>
12.1	Risgiau i gyflawni.....	68
12.2	Rheoli darpariaeth y Cynllun Tymor Canolig Integredig a thrawsnewid strategol.....	69
12.3	Mesur ein cynllun.....	70
<b>Cwestiynau.....</b>		<b>70</b>

## Rhagair gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae'n bleser gennym gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar gyfer 2025-2028. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu ein gweledigaeth strategol a'r camau y byddwn yn eu cymryd i wella ein gwasanaethau, gan sicrhau ein bod yn parhau i ddiwallu anghenion y cyhoedd a'n cleifion, ein pobl a'n partneriaid ledled Cymru.

Mae ein system iechyd a gofal yn parhau i fod dan bwysau sylweddol, ac fel darparwr cenedlaethol, rydym yn ymwybodol iawn o'r heriau y mae hyn yn eu cyflwyno. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi ymrwymo i nodi meysydd i'w gwella, cynyddu effeithlonrwydd, a bodloni disgwyliadau ein comisiynwyr. Mae ein taith drawsnewid strategol, a arweinir gan ein strategaeth hirdymor 'Sicrhau Rhagoriaeth,' yn parhau i fod ar flaen ein hymdrechion. Mae hwn yn gynllun sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn enwedig y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng ond hefyd i weithredu'r cyhoeddiad diweddar ar dargedau ymateb ambiwlansys a wnaed gan Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Mawrth 2025 yn y Senedd.

Mae ein safle unigryw o fewn GIG Cymru yn ein galluogi i ateb galw cleifion mewn ffyrdd arloesol. Nid yw'r cynllun hwn yn ymwneud â cheisio cyflawni'r hyn y mae ein partneriaid iechyd a gofal yn arbenigo ynddo, ond â throsoli ein galluoedd unigryw i wella'r system gyffredinol, ar gyfer y cleifion sy'n cysylltu â'n gwasanaethau. Mae rôl y Cyd-bwyllgor Comisiynu wrth iddo ddechrau ar ei ail flwyddyn o weithredu hefyd yn cyflwyno cyfleoedd i gydbwyso'r galwadau craidd ar ein gwasanaethau â'n agenda trawsnewid i fodloni'r ddemograffeg a'r galw a ragwelir dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Wrth wraidd ein gwasanaethau mae ein hymateb i'r rhai sydd â'r anghenion iechyd mwyaf critigol sy'n bygwth bywyd. Rydym yn cydnabod bod gormod o unigolion nad ydynt yn cael y gofal amserol sydd ei angen arnynt, gan arwain at niwed posibl. Mae ein cynllun yn canolbwyntio ar drawsnewid ein gwasanaethau i ddiogelu adnoddau ar gyfer y bobl mewn sefyllfaoedd sy'n bygwth bywyd a sefyllfaoedd brys a darparu gwasanaethau clinigol o bell ac yn y gymuned i gleifion sy'n cysylltu ag 111 neu 999 ag angen gofal brys neu angen gofal argyfwng llai critigol. Fodd bynnag, byddwn hefyd yn canolbwyntio'n fwy manwl ar iechyd y boblogaeth ac anghydraddoldebau iechyd, gyda thri amcan llesiant newydd sy'n adlewyrchu ein statws penodol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Byddwn yn croesawu gwelliannau digidol i wella ein darpariaeth gwasanaeth yn ogystal â phrofiad cleifion a chydweithwyr. O'n gwefan ac ymgynghoriad fideo i gleifion, offer i helpu i wneud gweithio gyda thechnoleg yn symlach ac yn fwy effeithlon i adeiladau a fflyd sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd ac wedi'u gwella'n ddigidol.

Rydym wedi ymrwymo i ddiwylliant o ddiogelwch seicolegol a chorfforol ar gyfer ein pobl. Byddwn yn parhau â'n gwaith rhagweithiol i fynd i'r afael â thrais ac ymddygiad ymosodol a materion rhywiaeth a diogelwch rhywiol, gan sicrhau bod ein Hymddiriedolaeth yn fan lle mae unigolion yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i godi llais yn erbyn ymddygiadau amhriodol. At hynny, mae ein hymrwymiad i amrywiaeth, cynhwysiant a cynghreiriaeth yn parhau i fod yn ddiwyro. Cefnogir hyn gan ddull newydd o ddatblygu arweinyddiaeth ar bob lefel o'n sefydliad dros y tair blynedd nesaf: *Ein Ffordd WAST*. Mae'r cynllun hwn hefyd yn sicrhau ein bod yn bodloni ein rhwymedigaethau statudol, gan gynnwys cynnal cydbwysedd ariannol.



**Jason Killens**  
**Prif Weithredwr**

Diolch am gymryd yr amser i ddarllen ein cynllun. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'n cydweithwyr, ein cleifion, a'n partneriaid i gyflawni'r gwelliannau a fydd o fudd i boblogaeth Cymru.

**I Gefnogi. I Wasanaethu. I Achub.**



**Colin Dennis**  
**Cadeirydd**



## Crynodeb Gweithredol

Wrth wraidd y Cynllun Tymor Canolog Integredig hwn mae uchelgais barhaus a phwrpasol i weithio'n gyflym, gyda'n partneriaid, i newid a gwella'r ffordd yr ydym yn ymateb i anghenion ein cleifion ac yn eu diwallu, gan alluogi canlyniadau gwell nawr ac yn y dyfodol.

Ers cyhoeddi ein strategaeth hirdymor 'Sicrhau Rhagoriaeth' yn 2019, nid ydym wedi anwybyddu ein huchelgais i drawsnewid ein gwasanaethau. I ddechrau, roedd y gwaith yn canolbwyntio ar sefydlogi ein gwasanaethau: buddsoddi yn staff rheng flaen y Gwasanaeth Meddygol Brys; creu gwasanaeth 111 Cymru gyfan; trosglwyddo holl wasanaethau Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS) o Fyrddau Iechyd i WAST; a chyflawni gwelliannau effeithlonrwydd allweddol. Dros y 12 mis diwethaf, mae ymdrechion wedi cynyddu, ac mae staff o bob rhan o'r sefydliad wedi dod ynghyd â'n comisiynwyr i greu model gwasanaeth clinigol integredig, sy'n golygu bod ein gwasanaethau 999, GIG 111 a Gofal Ambiwylans oll yn cyfrannu at drawsnewid gofal.

Rydym wedi dechrau ar y gwaith o roi'r model datblygedig hwn ar waith, gyda nodweddion allweddol sy'n cynnwys y canlynol:

- Gwell **arweinyddiaeth glinigol** a galluoedd gwneud penderfyniadau. Mae rolau uwch llywiwr clinigol newydd wedi'u cyflwyno i'r ystafelloedd rheoli, gan gynnal sgrinio clinigol cyflym ar gyfer y rhan fwyaf o alwadau 999 i benderfynu a oes angen eu hanfon ar unwaith neu a ydynt yn addas ar gyfer brysbennu a chymorth clinigol pellach o bell. Gyda thua 70% o'r digwyddiadau a sgriniwyd bellach wedi'u nodi fel rhai addas ar gyfer asesiad clinigol o bell mwy manwl, mae ein clinigwyr o bell yn datblygu cynlluniau gofal unigol ar gyfer llawer mwy o gleifion, yn defnyddio gwirfoddolwyr cymunedol a thechnoleg monitro o bell i gefnogi cleifion wrth i ofal gael ei drefnu, ac yn cau dros 20% o'n galwadau 999 heb fod angen ambiwlans na thriniaeth bellach.
- **Cysylltu** systemau a phrosesau ar draws ein holl wasanaethau fel bod cleifion yn cael y gofal cywir, ni waeth os ydynt yn cysylltu â ni drwy ein llwyfannau digidol, yn galw 111 neu'n ffonio 999.
- Creu ystod ehangach o **ddewisiadau** ac opsiynau ar gyfer asesu wyneb yn wyneb sydd wedi'u cynllunio i gefnogi triniaeth gartref neu atgyfeirio i lwybrau lleol – mae 25 o Ymarferwyr Parafeddygol Uwch cywerth ag amser llawn wedi'u recriwtio, mae ein cerbyd ymateb iechyd meddwl cyntaf wedi'i roi ar waith fel rhan o'r model ehangach ar gyfer ymateb iechyd meddwl, ac rydym wedi gwneud gwaith pellach gyda Byrddau Iechyd ar ein gwasanaethau ymateb i gwympiadau yn unol â'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer cwympiadau.
- **Cydweithio** â Byrddau Iechyd a'r rhaglen chwe nod, er enghraifft i ehangu nifer y Llywyrwyr Ymarferwyr Parafeddygol Uwch sy'n gweithio o fewn canolfannau llif Byrddau Iechyd, treialu'r broses o gadw lle mewn canolfannau gofal sylfaenol brys ar gyfer cleifion 111 a chynyddu'r nifer o ymarferwyr gofal lliniarol cylchdro.

Gwyddom fod gormod o gleifion yn parhau i gael niwed, yn cael profiadau gwael o ofal, ac yn cael anawsterau wrth lywio ein system iechyd a gofal gymhleth sy'n golygu nad ydynt bob amser yn cael y gofal neu'r cyngor iawn yn y lle iawn ar yr amser iawn. Mae llawer o hyn yn gwaethygu'r pwysau ar ein pobl, fel y gwelir mewn lefelau absenoldeb salwch a throsiant sy'n uwch nag y byddem yn ei ddymuno, er y bu gwelliannau cadarnhaol dros y ddwy flynedd diwethaf. Rydym yn clywed yn uniongyrchol gan staff yn ystod ei n sioeau teithiol, yn ystod 'WAST Live' a thrwy arolygon am sut deimlad yw gweithio yn WAST, gyda llawer ohono yn adlewyrchu eu rhwystredigaethau.

Gyda'r sbardunau hyn ar flaen ein meddwl, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar dri ffrynt canlynol:

- **Parhau i drawsnewid** y ffordd yr ydym yn darparu gofal gyda phartneriaid Bwrdd Iechyd, gyda'r flwyddyn nesaf yn flwyddyn arloesol o ran gweithredu cam nesafein model ymateb clinigol integredig a fydd yn rhoi'r cyngor a'r gofal iawn i **gleifion**, yn y lle iawn, bob tro ac yn lleihau niwed;
- Gwneud popeth yn ein rhodd i **wella profiad ein pobl yn y gweithle**, gan eu galluogi i fod y gorau y gallant fod; a
- Darparu **gwerth a chynaliadwyedd eithriadol**, yng nghyd-destun cyllid, yr amgylchedd a Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth.

## Trawsnewid gofal ar gyfer ein cleifion

Yn y Cynllun Tymor Canolog Integredig hwn rydym yn parhau i ddisgrifio '**sut olwg fydd ar dda**' ymhen tair blynedd, a sut y gall y system ddisgwyl gweld newid a gwelliannau mesuradwy mewn canlyniadau. Mae'n flaenoriaeth i ni gynyddu soffistigedigrydd yn y ffordd yr ydym yn mesur gwelliannau system gyfan, yn ogystal â chysylltu data a gwybodaeth ar draws sefydliadau.

Rydym wedi treulio amser gyda **rhanddeiliaid a phartneriaid** yn ystod y flwyddyn i brofi ein syniadau. Er bod llawer yn cael ei gefnogi, rydym yn clywed bod mwy i'w wneud o ran sut mae ein cynlluniau'n alinio ar gyfer **gweithwyr gofal iechyd proffesiynol** a sut mae ein clinigwyr o bell yn cysylltu'n ddi-dor â **phwyntiau mynediad sengl y Bwrdd Iechyd**. Mae cydweithredu cryfach gyda grwpiau cleifion a chymunedol yn flaenoriaeth ac rydym yn bwriadu datblygu **grŵp cyfeirio cyhoeddus a chleifion** ffurfiol yn ystod blwyddyn gyntaf y cynllun hwn i gefnogi ein Hamcanion Llesiant. Bydd hyn yn rhoi cyfle i gynrychiolwyr helpu i lunio ein blaenoriaethau gwasanaeth a safonau gwasanaeth a'n dwyn i gyfrif am gyflawni.

Ein blaenoriaeth sylfaenol a phwysicaf erioed fu darparu gwasanaeth **ymateb i argyfwng** o safon fyd-eang. Mae ein model clinigol esblygedig wedi'i gynllunio i sicrhau bod gennym ddigon o adnoddau priodol i ddarparu'r ymateb i argyfwng cyflym hwn, gan sicrhau'r canlyniad gorau posibl i bob claf.

Yn dilyn casgliad grŵp gorchwyl a gorffen dan arweiniad Llywodraeth Cymru a chyhoeddiad diweddar Ysgrifennydd y Cabinet, byddwn yn gweithio i roi fframwaith perfformiad newydd ar waith a fydd yn canolbwyntio ar ganlyniadau clinigol wedi'u llunio o amgylch dau gategori newydd – ataliad y galon porffor ac argyfwng coch. Bydd hyn yn golygu symud oddi wrth dargedau seiliedig ar amser fel y prif fesur o lwyddiant a chanolbwyntio ar 'adferiad cylchrediad digymell' fel y prif fesur o lwyddiant ar gyfer y categori 'ataliad y galon porffor'. Bydd hyn yn darparu cyfle a sbardun hynod bwysig i ni weithio gydag eraill ar draws y system gyfan i wella pob cyswllt yn y gadwyn oroesi, gan gysylltu'n agos ag Achub Bywyd Cymru i gynyddu cyfraddau CPR gwylwyr a diffibrilio cynnar.

Ar gyfer pob claf arall sy'n defnyddio ein gwasanaethau sydd â **phroblemau iechyd brys neu arferol**, byddwn yn parhau i wneud cynnydd.

Bydd ein **platform digidol** pen blaen yn cael ei gryfhau i ddarparu gwell cyngor a hunanofal digidol ar-lein. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i greu gweledigaeth 'digidol yn gyntaf' ar gyfer gwasanaethau brys a gofal mewn argyfwng, sy'n debygol o **ganolbwyntio ar Ap GIG Cymru**, ond y byddwn yn chwarae rhan fawr ynddo, byddwn yn gwneud gwelliannau i wefan bresennol GIG 111 Cymru gan gynnwys lansio cynorthwyr rhithwir, a byddwn yn datblygu ystod newydd o wirwyr symptomau.

Mae clinigwyr o'n gwasanaethau 111 a 999 wedi treulio amser dros y 12 mis diwethaf yn dod at ei gilydd i nodi sut y gallant gydweithio'n fwy effeithiol i gefnogi gwell gofal a chanlyniadau i gleifion. Eleni, byddwn yn alinio ac yn integreiddio'r timau hyn yn llawn i mewn i **Wasanaeth Gofal Integredig o Bell**, gan gynnwys:

- Ystod o gamau gweithredu i **alinio strwythurau rheoli**, swyddogaethau addysg a hyfforddiant, trefniadau archwilio a phatrymau gwaith, gan gynnwys rhywfaint o adnoddau ychwanegol i gefnogi'r amgylchedd tîm mwy cymhleth;
- Cynnydd yng **nghapasiti a gallu'r** tîm i fodloni'r galw bob blwyddyn dros y cylch o dair blynedd, wedi'i gefnogi gan adolygiad llawn o'r Galw a Chapasiti ym mlwyddyn 2 ac yn cynnwys ehangu'r ystod o arbenigeddau a gynrychiolir. Ategir hyn gan ystod o gamau gweithredu i wella cynhyrchiant gan gynnwys adolygiad o arfer rhestrau dyletswyddau i reoli patrymau galw yn well yn ystod y dydd a'r wythnos.
- Datblygu a mireinio'r **model clinigol datblygedig** ymhellach, gan weithio ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddefnyddio'r trinwyr galwadau i wella effeithlonrwydd, ymgorffori'r cysyniad o gynllunio gofal, cynyddu'r defnydd o dechnolegau monitro o bell a'u hanfon i leoliadau a datblygu llwybrau newydd i wasanaethau'r Bwrdd Iechyd y gellir eu trefnu a'u harchebu.
- Adeiladu ar ein **galluoedd digidol**, adolygu, gwerthuso a datblygu'r system CAS, darparu gallu fideo ar gyfer asesu o bell a chysylltu data fel y gallwn ddeall canlyniadau yn well.

I lawer o gleifion ag anghenion gofal brys, bydd angen asesiad yn y fan a'r lle o hyd. Rydym wedi ymrwmo i barhau i dyfu ein gwasanaethau **ymateb cymunedol brys**: bydd 10 Ymarferydd Parafeddygol Uwch yn cael eu hyfforddi a'u lleoli yn ystod y flwyddyn; bydd nifer yr ymarferwyr gofal lliniarol yn cael eu hehangu i bedwar ardal Bwrdd Iechyd trwy gymorth cyllid Marie Curie; bydd model iechyd meddwl WAST yn cael ei adolygu ac yn amodol ar werthusiad, bydd rhagor o gerbydau ymateb iechyd meddwl yn cael eu defnyddio; bydd gwasanaethau cwmpadau yn cael eu datblygu ymhellach mewn cydweithrediad â phartneriaid ac yn unol â'r fframwaith cenedlaethol; a bydd systemau i alluogi amserlennu gofal heb ei drefnu yn cael eu cynllunio a'u datblygu. Drwy'r newidiadau hyn, ein nod yw **dyblu nifer y cleifion rydym yn eu rheoli'n ddiogel gartref neu yn y gymuned** dros y tair blynedd nesaf a haneru'r nifer sy'n cael niwed drwy ganslo eu hambiwlsansys.

Bydd gan ein gwasanaeth cludiant cleifion **Gofal Ambiwlsans** fwy o rôl yn y dyfodol wrth gefnogi llif ar draws y system, boed hynny drwy **wasanaethau rhyddhau hyblyg**, cynlluniau **trosglwyddo rhwng ysbytai** pwrpasol ac ymatebol neu **wasanaeth cludiant iechyd ar y dydd 'wedi'i gynllunio' sy'n hygyrch i Weithwyr Iechyd Proffesiynol neu ein clinigwyr ein hunain**.

O fewn ein gwasanaeth Gofal Ambiwlsans, ein prif flaenoriaeth fydd gweithio gyda chomisiynwyr i **droi'r weledigaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gwasanaethau pwysig hyn yn gamau gweithredu clir a phendant**. Byddwn yn parhau i wneud gwelliannau mewn cynhyrchiant ac effeithlonrwydd gan gynnwys **aildrefnu amserlenni** o fewn NEPTS, a fydd yn cael ei gwblhau ym mlwyddyn 1 ac a fydd yn **cynyddu nifer y teithiau y gallwn eu cefnogi bob dydd** trwy gyfateb galw a chapasiti yn well.

### **Gwella profiad ein pobl yn y gweithle**

Yr allwedd i ddarparu'r gofal cleifion gorau yw **canolbwyntio ar anghenion ein pobl**. Rydym yn gwrando'n weithredol, yn dysgu ac yn sicrhau ein bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â rhai o'r materion mwyaf sy'n effeithio ar brofiad bywyd beunyddiol ein cydweithwyr. Ochr yn ochr â hyn, gan gydnabod y materion diwylliannol sydd wedi dod i'r amlwg yn y sector gwasanaethau brys ehangach, rydym yn parhau i weithio i adeiladu diwylliant diogel, cadarnhaol gyda phwyslais ar les, cymorth a datblygiad, lle gallwn ddod â'n hunan gyfan i'r gwaith. Dyma elfennau craidd sefydliadau sy'n perfformio'n dda. Drwy greu'r amgylchedd hwn, **bydd ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac y gellir ymddiried ynddynt ac yn profi gwir ymdeimlad o bwrpas a pherthyn** a fydd yn ein galluogi i barhau i wella a chyflawni ein huchelgeisiau hirdymor.

Mae ein Cynllun Pobl a Diwylliant yn gosod y cyfeiriad ac yn cefnogi ein huchelgeisiau strategol sefydliadol gyda ffocws ar ein tair elfen: Diwylliant, Capasiti a Gallu. Bydd canlyniadau allweddol blwyddyn 1 yn cynnwys:

- **Diwylliant** – cynyddu'r capasiti er mwyn ymateb yn dosturiol ac yn amserol i'r rhai sy'n mynegi pryderon, gan barhau â rhaglen o blymio dwfn diwylliannol a thyfu a chryfhau ein rhwydweithiau pobl;
- **Capasiti** – adeiladu rolau a llwybrau gyrfa newydd, cefnogi ein pobl i aros mewn gwaith, ac adolygu cymysgedd sgiliau ar gyfer ein Ambiwlansys Argyfwng yn dilyn cyflwyno rôl newydd Ymarferydd Ambiwlans Brys y llynedd;
- **Gallu** – lansio a datblygu 'Ein Ffordd WAST', sef fframwaith ar gyfer datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth, gyda ffocws ar sgysiau ystyrlon i gefnogi ein holl bobl.

Rydym yn ymrwymo i barhau i weithio ar dair blaenoriaeth benodol. Gan gydnabod nad ydym wedi gwneud cymaint o gynnydd ag y byddem wedi dymuno, byddwn yn ailddyblu ein hymdrechion, gan edrych am ffyrdd arloesol o allu gwneud gwelliannau sylweddol mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn yr undebau llafur:

- Trwy Ein Ffordd WAST, gan ymgorffori **sgysiau un i un rheolaidd** i fynd i'r afael â heriau staff, gwella cymhelliant a llesiant, a chreu amgylchedd gwaith cefnogol;
- Cael gwared ar **siffitau'n gor-redeg**, trwy ddatrysiadau wedi'u creu ar y cyd;
- Gwella **profiad digidol** ein pobl e.e. mewngofnodi symlach, awtomeiddio ac ati.

Byddwn yn parhau i **ganolbwyntio ar leihau tyniadau oherwydd absenoldeb salwch**. Ein nod yw dod â thyniadau oherwydd salwch i lawr i 6% yn ystod y cyfnod tair blynedd hwn, gan dderbyn bod llawer o ffactorau a fydd yn dylanwadu ac yn llywio cyflawniad.

### **Darparu gwerth eithriadol a chynaliadwyedd**

Ategir y cynllun gan **gynllun ariannol cytbwys** sy'n parhau â'n perfformiad ariannol cryf diweddar o gydbwysu drwy gydol y flwyddyn ariannol. Er mwyn cyflawni hyn, fodd bynnag, bydd angen cyflawni targed arbedion heriol o tua £8.5 miliwn. Bydd hyn yn canolbwyntio nid yn unig ar arbedion ac effeithlonrwydd ond hefyd ar fanteisio ar gynhyrchu incwm a chyfleoedd masnacheiddio yn rhagweithiol.

Bydd cyfres o raglenni a chynlluniau galluogi helaeth yn cefnogi twf a thrawsnewidiad ein gwasanaethau craidd gan gynnwys **Cynllun Ansawdd diwygiedig, Cynllun Clinigol, Cynllun Pobl a Diwylliant, Cynllun Trawsnewid Digidol a Chynllun Gwirfoddoli**. Bydd y **Rhaglenni Amlinellol Strategol Ystadau a Fflyd** yn cael eu gyrru ymlaen yn ogystal ag, yn bwysig, gwaith i gyflawni ein cyfraniad at y GIG yng Nghymru a **Chynllun Cynaliadwyedd Amgylcheddol** Llywodraeth Cymru yn mynd â ni tuag at gyflawni ein targedau carbon erbyn 2030.

Byddwn hefyd yn canolbwyntio'n fwy manwl ar **lechyd ac Atal y Boblogaeth** drwy gynllun lechyd y Boblogaeth diwygiedig, gan dynnu ar dystiolaeth ac arfer da ar draws y GIG a'r sector ambiwlans yn y DU. Gwyddom y gallwn wneud mwy dros ein cymunedau o ran lefelau atal, gan ddefnyddio dull rheoli lechyd y Boblogaeth.

Gwyddom fod cynllun hwn yn uchelgeisiol ac rydym yn cydnabod bod risgiau wrth gyflawni: mewn perthynas â'r **pwysau ariannol** ar draws y system a chyda'n comisiynwyr; mewn perthynas ag **ystod o ffactorau allanol** y mae gennym reolaeth gyfyngedig arnynt; ac mewn perthynas ag effeithiau parhaus y symudiad i drefniadau **comisiynu** newydd.

Fodd bynnag, nid yw'r camau y byddwn yn eu cymryd yn eistedd mewn gwagle ac maent yn gyson â'r uchelgeisiau a osodwyd ar ein cyfer drwy ein bwriadau comisiynu ac yn ehangach ar gyfer y system ehangach drwy'r Rhaglen Chwe Nod. Rydym yn gwbl falch o'r hyn rydym wedi'i gyflawni dros y 12 mis diwethaf. Yr allwedd yn awr fydd deialog ac ymgysylltu parhaus yn fewnol ac yn allanol sy'n hwyluso trawsnewid pellach, yr ydym wedi ymrwymo i'w wneud er mwyn sicrhau gwell gwasanaeth i bobl Cymru.



# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi Cynllun Tymor Canolig Integredig Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) ar gyfer 2025-28, a ysgrifennwyd yn unol â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru a a Chyd-bwyllgor Comisiynu Ambiwlans a Bwriadau Comisiynu 111.

Cefnogir y ddogfen gan y Set Ddata Sylfaenol fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru (LIC), cynlluniau gweithredu blaenoriaeth gweinidogol ac atodiadau sy'n rhoi mwy o fanylion am feysydd ein cynllun. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar gais.

## 1. Ein Strategaeth Hirdymor


### 1.1 Ein Diben

Yn 2023 mabwysiadwyd ein datganiad o ddiben sefydliadol **'I Gefnogi, I Wasanaethu, I Achub'**. Mae'r datganiad byr ond pwerus hwn yn ceisio disgrifio rheswm 'craidd' y sefydliad dros fod, gan uno pawb tuag at nod cyffredin.




### 1.2 Ein Nodau Strategol

Mae ein Fframwaith Strategol Hirdymor **'Sicrhau Rhagoriaeth'** yn nodi gweledigaeth y sefydliad ar gyfer y dyfodol hyd at 2030. Mae'r strategaeth wedi'i fframio o amgylch trawsnewid ein model gwasanaethau clinigol i sicrhau bod cleifion yn cael y **'cyngor a gofal iawn, yn y lle iawn, bob tro'**. Ein huchelgais yw esblygu o wasanaeth ambiwlans a chcludiant traddodiadol, tuag at wasanaeth clinigol integredig sy'n gweithio ar y cyd â'r system iechyd a gofal i ddiwallu anghenion cleifion sy'n cysylltu â ni drwy 111, 999 a'n gwasanaethau di-frys yn y ffordd orau bosibl mewn ffordd sy'n gwneud y gorau o'r bunt Gymreig, gan ychwanegu gwerth at y system yr ydym yn gweithio ynddi. Disgrifir ein huchelgeisiau a'n cynnydd tuag at drawsnewid ein model gwasanaethau clinigol yn fanylach yn adran 4.



Fodd bynnag, mae Sicrhau Rhagoriaeth yn strategaeth sefydliadol gyfan, nid yn unig yn ymwneud â modelau gwasanaeth, ond hefyd â sut yr ydym yn cefnogi ac yn galluogi ein **pobl i fod y gorau y gallant fod**. Rydym hefyd yn ymrwymo o fewn y strategaeth i fod yn sefydliad sy'n cydweithio â'n partneriaid, yn aros **ar flaen y gad o ran arloesedd a thechnoleg**, yn cyflawni ein dyletswyddau fel **sefydliad sy'n cael ei llywio gan ansawdd a'i harwain yn glinigol** sy'n darparu **gwerth** eithriadol. Rydym wedi parhau i ddatblygu ein Cynlluniau Tymor Canolig Integredig o amgylch y strategaeth hon a'i **chwe amcan strategol craidd**.



Er ein bod yn hyderus bod y strategaeth yn parhau i fod yn addas i'r diben, rydym yn cydnabod bod y dirwedd weithredu ehangach o'n cwmpas wedi newid yn sylweddol ers ei datblygu yn 2018/19. O flwyddyn 2 y cynllun

hwn, byddwn felly yn dechrau cyfres o weithdai ymgysylltu a fydd yn cefnogi adolygiad ac adnewyddiad o'r strategaeth erbyn diwedd y cylch y Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn. Bydd datblygu Fframwaith Sicrwydd Bwrdd Strategol a datganiadau archwaeth risg yn cefnogi'r adolygiad hwn.

### 1.3 Ein taith drawsnewid


Dros y chwe blynedd diwethaf ers cyhoeddi Sicrhau Rhagoriaeth, rydym wedi **trawsnewid ein gwasanaethau rheng flaen yn sylweddol**. Rydym wedi cynyddu capasiti Gwasanaethau Meddygol Brysgan dros 500 o staff, wedi cynyddu ein gweithlu gwirfoddol gan gynnwys cyflwyno Ymatebwyr Lles Cymunedol i reoli pobl yn ddiogel yn y gymuned ac wedi datblygu Unedau Ymateb Aciwtedd Uchel Cymru (CHARU) i wella canlyniadau i'r rhai sydd â'r anafiadau neu'r salwch mwyaf difrifol yn y gymuned.



Mae arloesi wedi ffynnu gyda rolau newydd yn cael eu cyflwyno i gefnogi, gan gynnwys ymarferwyr parafeddygol uwch sy'n gallu rhagnodi'n annibynnol a chylchdroi i ofal sylfaenol, ymarferwyr iechyd meddwl yn ein canolfannau cyswllt ac ar y ffordd, gan ganiatáu ar gyfer mwy o ofal yn y cartref pan fo'n ddiogel ac yn briodol.

Elfen allweddol o'n trawsnewid fu cyflwyno GIG 111 Cymru yn genedlaethol a'i gomisiynu ffurfiol gan y Cyd-bwyllgor Comisiynu, gan alinio gwasanaethau ambiwlans â Byrddau Iechyd a'r rhaglen Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng i symud yn nes at wasanaethau di-dor i gleifion sy'n defnyddio 111 a 999. Daethom hefyd â'r achos busnes i ben ar gyfer comisiynu'n ganolog Cludiant Cleifion Di-frys, gan leihau amrywiant ar draws Byrddau Iechyd a chyflwyno rolau Cynorthwywyr Gofal Ambiwlans newydd i gefnogi ceisiadau trafndiaeth brys a thrafnidiaeth mewn argyfwng.

Er gwaethaf y datblygiadau hyn, mae'r galw yn parhau i godi, ac mae perfformiad yn parhau i gael ei herio. Yn 2024 fe wnaethom ddatblygu set o ddatganiadau i ystyried sut olwg fyddai ar dda o ganlyniad i newid trawsnewidiol a chyflenwi'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r graffig yn dangos ein bod mewn rhai meysydd yn symud tuag at y sefyllfa yr oeddem am fod ynddo, fel y nodwyd y llynedd, ond rydym yn gwybod bod rhai meysydd wedi gwaethygu o hyd, ac mae angen gwelliant pellach eleni i fynd i'r afael â'r meysydd hyn, yn ogystal â symud y canlyniadau ymhellach tuag at y canlyniadau a ragwelir a nodir yn ein cynlluniau.



## 2. Ein Prif Gyflawniadau yn 2024/25

Yn ogystal â chymryd camau breision tuag at ein huchelgeisiau strategol hirdymor dros y pum mlynedd diwethaf, rydym wedi rhoi llawer o newidiadau ar waith ar draws y sefydliad cyfan drwy ein Cynllun Tymor Canolig Integredig diwethaf yn 2024/25.

Fe wnaethom ddatblygu ein model yn 2024/25 i **sicrhau 'rhwyl ddiogelwch' glinigol i gleifion, gan ehangu rôl arbenigwyr clinigol yn ein canolfannau cyswllt** trwy gyflwyno Llywyrwyr Clinigol i sgrinio galwadau 999, a gwella'r ddesg cymorth clinigol gyda **rolau proffesiynol ychwanegol** (fel arbenigwyr anadlol, pediatrig ac iechyd meddwl). Mae Byrddau Iechyd wedi ein cefnogi drwy agor llwybrau i glinigwyr 999, ac rydym wedi profi'r defnydd o feddalwedd 111 gan drinwyr galwadau 999 i gau galwadau aciwtedd isel heb ymyrraeth clinigwyr. Rydym yn gwerthuso'r newidiadau hyn wrth i ni ddechrau ar gam nesaf ein rhaglen trawsnewid model clinigol.

Mae'r graffig canlynol yn dangos rhywfaint o'r gwaith rydym wedi'i wneud dros ehangder y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn 2024/25.



## 3. Heriau a chyfleoedd sy'n llywio ein cynllun

### 3.1 Beth mae ein cleifion yn ei ddweud am ein gwasanaeth?

Drwy gydol 2024/25 rydym wedi bod yn gofyn i'r cyhoedd sut olwg sydd ar wasanaeth ambiwlans o ansawdd da. Mae ymatebion pobl wedi ein helpu i lywio datblygiad y Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn, sef Cynllun Ansawdd yr Ymddiriedolaeth, a hefyd ein helpu i ddeall sut rydym yn datblygu ein gwasanaethau i wella ansawdd yn unol â Deddf Iechyd a Gofal (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru).

Drwy ein hymgysylltu a'n harolygon parhaus, mae'r blaenoriaethau ar gyfer ein cynllun a gynigir gan gleifion a'r cyhoedd yn cynnwys y canlynol:

- **Gwelliant mewn oedi:** Blaenoriaethu datrysiadau i oedi wrth drosglwyddo o'r ambiwlans i'r ysbyty.
- **Ffocws ar gynhwysiant:** Sicrhau bod adborth gan gymunedau amrywiol (gan gynnwys y rhai nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf a phobl ag anghenion ychwanegol) yn cael ei integreiddio i ddyluniad gwasanaethau.
- **Cyfathrebu clir:** Bod yn onest am yr heriau y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu ond hefyd cynnig gobaith gyda champau clir tuag at welliant.
- **Gwella gofal yn y gymuned:** Ehangu rolau fel "Ymatebwyr Lles Cymunedol" a chynyddu gofal y tu allan i ysbytai.



Mae rhagor o fanylion ar gael yn Atodiad 1.

### 3.2 Beth yw blaenoriaethau ein cydweithwyr?

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â chydweithwyr ar draws yr Ymddiriedolaeth i ddeall y materion allweddol sy'n effeithio arnynt. Mae hyn nid yn unig yn ein helpu i lunio ein cynlluniau gwasanaeth ar gyfer y dyfodol, ond hefyd yn ein helpu i nodi materion sy'n effeithio ar eu bywydau gwaith o ddydd i ddydd. Mae Atodiad 1 yn rhoi mwy o fanylion.


Ein prif fecanweithiau ar gyfer gwranddo ar ein pobl yw fel a ganlyn:

- **WAST Live** – sesiwn MS Teams reolaidd lle mae'r tîm gweithredol yn rhannu gwybodaeth am bethau sy'n effeithio ar ein pobl ac yn ymateb i'w cwestiynau.
- **Sioeau Teithiol y Prif Swyddog Gweithredol** – ymgysylltu'n uniongyrchol ddwywaith y flwyddyn â'n pobl ledled Cymru
- **Metrigau diwylliannol** – set o ddata ansoddol a meintiol sy'n asesu effaith ein cynllun Pobl a Diwylliant.
- **Metrigau'r gweithlu** – sy'n rhoi dangosyddion ynghylch yr heriau sy'n wynebu ein pobl.
- **Arolwg Staff y GIG** - profiadau, safbwyntiau a mewnwelediadau i helpu i siapia'r amgylchedd gwaith.
- **Ein rhwydweithiau pobl** - meithrin diwylliant o berthyn a chyfranogiad gweithredol.


Mae metrigau ein Cynllun Pobl a Diwylliant yn dangos ein bod ar y trywydd a ragwelwyd gennym, gydag arwyddion cadarnhaol bod ein hymdrechion yn ein symud i'r cyfeiriad cywir. Er bod y cynnydd hwn yn galonogol, rydym yn cydnabod bod llawer o waith i'w wneud o hyd; adlewyrchir hyn mewn data arolwg staff ac adborth ehangach.

Mae adborth cychwynnol o arolwg staff y GIG yn dangos, er bod tua dwyran o dair o bobl yn falch o weithio i WAST ac yn mynd gam ymhellach yn y gwaith, mae llai na hanner yr ymatebwyr yn edrych ymlaen at fynd i'r gwaith ac nid yw llai na hanner yn teimlo eu bod yn rhan o newidiadau sy'n effeithio ar eu gwaith, tîm ardal neu adran.

Gellir mynd i'r afael â llawer o faterion a godwyd gan ein pobl ar lefel weithredol neu gyfarwyddiaeth ond mae ymrwymadau parhaus i'n pobl y mae angen eu hadlewyrchu yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n cyd-fynd â'r adborth. Mae adborth yr arolwg yn rhoi arwydd i ni fod yn rhaid i ni barhau â'n taith ddiwylliannol, yn ogystal â gwneud y mwyaf o'r cymorth a'r gallu i reoli newid sydd gennym ar draws y sefydliad wrth i ni gychwyn ar newid pellach tuag at ein huchelgeisiau strategol. Rydym yn defnyddio'r mewnewidiadau hyn i lunio ein cynlluniau wrth symud ymlaen, gan sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y meysydd cywir ac yn parhau i adeiladu ar y momentwm hwn.




### 3.3 Ein cyd-destun gweithredol ac ariannol



Mae cyd-destun gweithredu'r Ymddiriedolaeth yn parhau i fod yn heriol gyda'r galw'n cynyddu, capasiti'r gweithlu wedi'i ymestyn yn GIG Cymru, pwysau ar y system a llif gwael drwy'r system yn arwain at adrannau brys orllawn a chiwiau ambiwlans. Caiff hyn ei waethygu gan newid demograffig, gyda phoblogaeth eiddil yn tyfu ar gyfradd uwch na'r boblogaeth iau, oedran gweit

gweithio.

Mae pobl yn byw yn hirach ond mewn iechyd gwael ac mae hyn yn parhau i roi pwysau ar y system gyfan ac mae angen ffocws gwahanol ar iechyd y boblogaeth ac anghydraddoldebau iechyd wrth i ni gyflawni ein cynlluniau.



## Ein perfformiad



### Ein Cleifion - EMS

Collwyd 22,567 o oriau wrth drosglwyddo bob mis  
**Perfformiad coch** 48.53%  
**Cynyddodd cyfanswm nifer y galwadau coch yr ymatebwyd iddynt o fewn 8 munud**  
**Oren 1 canolrif wedi gostwng** i 1 awr 37 munud – yn parhau i fod yn rhy hir  
**9,435 o ambiwlansys yn cael eu canslo** gan gleifion bob mis – angen nas ddiwallwyd  
**123 o ddigwyddiadau andwyol difrifol** wedi'u trosglwyddo i Fyrddau Iechyd i gael ymchwilid

### Ein Cleifion - Gofal Ambiwllans

Mae gwasanaeth NEPTS yn parhau i fod yn sefydlog ar y cyfan  
Mae perfformiad oncoleg yn faes cydnabyddedig i'w wella o hyd, er iddo gyflawni **74.5%** ar gyfer ei amserau targed targed i mewn yn ystod 2024  
**Mae perfformiad arenol** yn parhau i fod yn dda ac yn uwch na'r targed  
**Gwelliannau mewn safonau ansawdd** ar gyfer contractau NEPTS

### Ein Cleifion - GIG 111 Cymru

**Mae'r galw wedi cynyddu** i 85,000 o alwadau ar gyfartaledd bob mis  
**Gwelliannau o ran capasiti** a phrosesau trin galwadau  
**Gwaethygodd perfformiad ateb galwadau wrth i'r galw gynyddu**  
**Parhaodd amseroedd galw'n ôl clinigol i gwrdd â'r targed** ar gyfer pob categori blaenoriaeth rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref

### Ein Pobl

**Cynyddodd yr oriau EMS a gynhyrchwyd**, sef 121,000 awr y mis ar gyfartaledd  
**Gwellodd cyfraddau tyniadau EMS** ond maent yn dal i fod yn uwch na'r meincnod ar gyfartaledd o 30%.  
**Absenoldeb salwch uchel** mewn ardaloedd rheng flaen ond mae'r gyfradd gyffredinol yn gostwng  
**Mae trosiant staff wedi gostwng**, y gyfradd gyfartalog fisol yw 7.95%  
Gwellodd **cydymffurfiaeth PADR** i 76.6%, ond mae'n parhau i fod yn is na'r targed o 85%.

### Cyfraniad System

**Mae'r gyfradd ymgynghori a chau fisol uwchlaw'r targed** ers cyflwyno RCS  
Cynydd cyfyngedig o ran cyfeirio mwy o bobl at **ddewisiadau amgen i adran achosion brys**  
Cynydd cyfyngedig o ran **trin mwy o bobl yn y fan a'r lle**, 17.7% yn 2024  
**Cyllid a Gwerth**  
Mae'r Ymddiriedolaeth ar y trywydd iawn i gael ei **mantoli'n ariannol erbyn diwedd mis Mawrth 2025**

Data yn gywir ym mis Rhagfyr 2024

Ceir rhagor o fanylion yn atodiad 1.


Mae blwyddyn ariannol 2024/25 wedi bod yn heriol, gyda buddion ein buddsoddiadau trawsnewid eto i'w gwireddu'n llawn. Fodd bynnag, rydym yn dechrau gweld canlyniadau cadarnhaol o newidiadau a roddwyd ar waith dros y gaeaf, a fydd yn cael eu gwerthuso yn 2025/26.

Er bod nifer y Digwyddiadau Niweidiol Difrifol a drosglwyddwyd i Fyrddau Iechyd i'w hymchwilio wedi gostwng, rydym yn parhau i bryderu am ddiogelwch cleifion. Mae gormod o gleifion yn cael niwed, mae gwasanaethau'n aml yn canolbwyntio ar anghenion sefydliadol gyda phrosesau aneffeithlon a hen ffasiwn yn effeithio ar brofiad y claf, ac mae'r anhawster wrth lywio ein system iechyd a gofal cymhleth yn golygu nad yw cleifion yn aml yn cael y gofal neu'r cyngor iawn yn y lle iawn ar yr amser iawn. Mae galw ac an gen hefyd wedi cynyddu ar draws pob rhan o'r Ymddiriedolaeth, gyda chynnydd mewn digwyddiadau coch ac oriau a gollwyd oherwydd oedi wrth drosglwyddo cleifion i ysbytai.

Rydym wedi ymrwmo i lesiant ein pobl, gan eu bod yn hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel. Gwelwyd gwelliannau yn yr oriau a gynhyrchwyd, cyfradd dyniadau, absenoldeb salwch, a throsiant staff. Fodd bynnag, mae mwy i fynd eto, wrth i'r pwysau parhaus ar ein system barhau i ysgogi lefelau uchel o straen a phryder, sef prif achos salwch yn ein gwasanaeth.

Byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau ariannol statudol ar gyfer 2024/25, gan gyflawni dros £6 miliwn mewn arbedion. Fodd bynnag, mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer 2025/26 yn parhau i fod yn heriol oherwydd chwyddiant, costau byw, ac ansefydlogrwydd prisiau. Mae'r set ddata sylfaenol yn atodiad 2 a thempledi gan weinidogion yn amlinellu'r gweithgaredd disgwylidiedig, taflwybrau perfformiad, a'r gweithlu a'r cynllun ariannol ar gyfer 2025/26.

### 3.4 Beth yw ein sbardunau deddfwriaethol, strategol, ariannol a pholisi?



Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** yn sail i'r Rhaglen Lywodraethu, a '**Cymru Iachach**' yw'r strategaeth hirdymor ar gyfer y system iechyd a gofal cymdeithasol o hyd. Ym mis Mehefin 2024 cawsom ein henwi'n ffurfiol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, ac felly roedd yn ofynnol yn ffurfiol i ni gydymffurfio â'r Ddeddf, y ddyletswydd llesiant, y Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) a'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol. Rydym wedi nodi yn adrannau 3.7 ac 8 y camau

gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros y tair blynedd nesaf i sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau o dan y Ddeddf.

Nodwyd blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Fframwaith Cynllunio 2025-28 y bydd angen i'r cynllun hwn eu bodloni:



Mae atodiadau 3a-d yn cynnwys y meysydd gwaith allweddol a nodir yn y cynllun hwn a fydd yn cyflawni yn erbyn y blaenoriaethau hyn.

Mae sefydliadau iechyd ledled Cymru wedi dod at ei gilydd dros yr ychydig fisoedd diwethaf i ystyried yr heriau sy'n wynebu'r GIG yng Nghymru a sut y gallwn fynd i'r afael â'r rhain ar y cyd dros y blyneddau ddod. Y nod yw adeiladu glasbrint darparu gwasanaeth a fydd yn disgrifio **sut olwg fydd ar y GIG yng Nghymru ymhen 10 mlynedd**, ac a fydd yn sicrhau gwelliannau mewn canlyniadau a pherfformiad iechyd ac yn lleihau anghydraddoldebau. Bydd hwn yn ymdrech ar y cyd, gan ddwyn ynghyd y syniadau o fewn sefydliadau'r GIG yng Nghymru a defnyddio arbenigedd allanol a mewnwelediadau rhyngwladol, a bydd yn cefnogi ac yn gwella gwaith Llywodraeth Cymru ar Gynllun Cenedlaethol.

Bydd hwn yn lasbrint sy'n disgrifio system gofal sylfaenol a chymunedol integredig sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar, model ar gyfer ysbytai yn y dyfodol, gofal wedi'i hwyluso gan dechnoleg a gweithlu wedi'i hwyluso ac sy'n canolbwyntio ar y dyfodol. Bydd hefyd yn nodi cynllun ar gyfer sut y caiff y newidiadau hyn eu cyflawni.

Byddwn hefyd yn gallu dysgu o systemau iechyd eraill, megis yr ymweliadau cilyddol diweddar â Denmarc, sy'n cynnwys y potensial i weithredu dull ffôn yn gyntaf sy'n caniatáu trefnu gofal heb ei drefnu fel y nodir yn adran 4.5 isod.

Ymgysylltu a chynnwys y gymuned

Gweithio ar y cyd ag arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru

Ymgysylltu a chynnwys staff y GIG wrth siapo modelau ar gyfer y dyfodol

Map ffordd clir ar gyfer trawsnewid digidol

Model cyflenwi sy'n seiliedig ar eglurder o gyfrifoldeb ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol

Wrth i'r gwaith cenedlaethol hwn ddatblygu, byddwn yn ymrwymo i gysoni'r meddylfryd â'n cynlluniau ar gyfer newid a gwella gwasanaethau.

**Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) (Dolen)** a'r **Ddyletswydd Ansawdd (Dolen)** yn llywio'r dull o wneud penderfyniadau strategol yn WAST. Mae ein holl benderfyniadau strategol a wneir i gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn destun Aseidiadau Effaith Ansawdd. Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, rydym wedi ystyried, ac wedi ymgorffori'r Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal drwyddo draw. Mae Adran 9 yn nodi'r gwaith penodol yr ydym yn parhau i'w wneud i fesur a rheoli ansawdd a pherfformiad yn unol â'r Ddeddf ac sy'n cyd-fynd â Chymru Iachach.

Yn dilyn cefnogaeth gan y Cabinet yn ystod haf 2024, cytunwyd ar set o gamau gweithredu wedi'u hadnewyddu i gefnogi

cyflawni **Cymru Iachach**.<sup>1</sup> Mae'r camau gweithredu hyn yn dod o dan y categorïau canlynol, a byddwn yn cynnal asesiad yn erbyn y camau gweithredu manwl o dan bob categori yn ystod blwyddyn 1 o'r cynllun hwn fel rhan o gynllun cyflawni y Gyfarwyddiaeth Strategaeth, Cynllunio a Pherfformiad, gan gynnwys unrhyw fylchau yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2026-29 yn ôl yr angen:

- Ataliol
- Canolbwyntio ar yr unigolyn
- Cynaliadwy
- Teg
- Ansawdd uchel a diogel
- Digidol a data
- Y gweithlu
- Ymchwil, datblygu ac arloesi
- Cydgynhyrchu a phartneriaeth
- Integreiddio

Mae'r rhaglen **Chwe Nod (Dolen)** wedi sefydlu ei hun ar lefel genedlaethol a lleol fel y mecanwaith cyflawni allweddol ar gyfer polisi Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng y Llywodraeth ac i gefnogi gwelliant yn y system gofal brys a brys. Mae gan yr Ymddiriedolaeth rôl i'w chwarae ar draws yr holl nodau, a gellir gweld hyn gan fod yr eiconau chwe gôl wedi'u cynnwys yn yr adran berthnasol o'r cynllun hwn.

Bydd WAST yn gweithio gyda thîm y rhaglen Chwe Nod a'r Cyd-bwyllgor Comisiynu i ddatblygu cynllun penodol mewn ymateb i gamau gweithredu'r rhaglen Chwe Nod y gellir eu cyflawni gan WAST neu gyda WAST. Byddwn hefyd yn cynnal cysylltiadau gwaith agos â thimau chwe nod cenedlaethol a lleol fel rhanddeiliaid allweddol wrth gyflawni ein rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol, gan

Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng  
**Y gofal iawn, yn y lle iawn, y tro cyntaf**



1. Cydgyssylltu, cynllunio a chymorth ar gyfer poblogaethau sydd â risg uwch o fod angen gofal brys neu ofal mewn argyfwng



2. Cyfeirio pobl ag anghenion gofal brys i'r lle iawn y tro cyntaf



3. Dewisiadau eraill sy'n ddiogel yn glinigol yn lle mynd i'r ysbyty



4. Ymateb cyflym os oes ar gyfwng corfforol neu argyfwng iechyd meddwl



5. Darparu'r gofal a'r ymarfer rhyddhau gorau posibl i'r clefar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty



6. Dull 'gartref' yn gyntaf a lleihau'r risg o orfod mynd yn ôl i'r ysbyty

I gyflawni'r gorau posibl o ran profiad cleifion a staff, canlyniadau clinigol a gwerth

<sup>1</sup> Cymru Iachach: ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Ar gael yn: [Adnewyddu Camau Gweithredu Cymru Iachach 2024-25](#)

ddefnyddio dull cydweithredol yn gyntaf o gyflawni'r rhaglen.

Mae'r un peth yn wir am ein rôl o weithio ar y cyd â rhaglenni cenedlaethol eraill megis y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Gofal wedi'i Gynllunio yn ogystal â rhwydweithiau clinigol ledled Cymru ac mewn ardaloedd ffiniol yn Lloegr.

Mae deddfwriaeth bellach sy'n gyrru ffocws yn ein cynllun eleni yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Dyletswydd Gonestrwydd ([Dolen](#))
- Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol ([Dolen](#))
- Deddfwriaeth Cydraddoldeb a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ([Dolen](#)) .
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol: Diweddariad 2024 ([Dolen](#))
- Cynllun Gweithredu Mwy na geiriau ([Dolen](#))
- Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ([Dolen](#))
- Deddf Diogelu Gweithwyr (Diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010) 2023 ([Dolen](#))

#### Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd



Rydym yn gwneud cynnydd da gyda llawer o elfennau ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio ond yn gwybod y bydd angen buddsoddiad sylweddol i wireddu ein huchelgeisiau yn llawn. Ynghyd â hyn mae hefyd ymrwymiad i fuddsoddi mewn arloesedd a thechnoleg.

### 3.5 Beth mae ein comisiynwyr yn ei ddweud?

Mae comisiynu gwasanaethau ambiwlans WAST ar hyn o bryd bellach yn rhan o gylch gwaith **Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru** a oedd yn weithredol o 1 Ebrill 2024. Cyhoeddir Cynllun Tymor Canolig Integredig y Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru ar yr un pryd â Chynllun Tymor Canolig Integredig WAST, ac mae comisiynu ein gwasanaethau wedi'i nodi yn y portffolio Ambiwllans a Chomisiynu GIG 111 sy'n cynnwys pum gwasanaeth a gomisiynir, sef: GIG 111; Gwasanaethau Ambiwllans Brys; Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS); Gwasanaeth Adalw a Throsglwyddo Meddygol Brys (EMRTS) a'r Gwasanaeth Trosglwyddo Gofal Critigol i Oedolion (ACCTS).

Mae'r bwriadau comisiynu blaenorol ar gyfer EMS, NEPTS, ac EMRTS ar gyfer 2024-2025 wedi'u hadolygu a'u diweddarau ar gyfer 2025-2026. Mae'r bwriadau comisiynu newydd bellach hefyd yn cynnwys GIG 111 Cymru a'r Gwasanaeth Trosglwyddo Gofal Critigol i Oedolion (a gynhelir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe). Mae'r bwriadau hyn yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol y Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru a fframwaith cynllunio GIG 111 Cymru, gan fynd i'r afael â risgiau ambiwlans a chomisiynu trwy asesiad yn erbyn y safonau ansawdd iechyd a gofal.

Gellir dod o hyd i'r bwriadau comisiynu ar wefan y pwyllgor. [Hafan - Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru](#)

## 3.6 Beth yw'r risgiau yr ydym yn eu rheoli?

Mae Atodiad 1 yn manylu ar y risgiau rydym yn eu rheoli fel sefydliad. **Mae'r risgiau sydd â'r sgôr uchaf yn ysgogi llawer o'r trawsnewid a'r gwelliant i wasanaethau o fewn y Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn** dros y tair blynedd nesaf. Mae'r sgorau ar gyfer y prif risgiau, o fis Ionawr 2025, yn cael eu hadolygu a'u monitro'n rheolaidd gan y bwrdd a'i bwyllgorau.

Mae ein dau risg uchaf (223 a 224) yn parhau i fod yn feysydd ffocws allweddol yn ein cynlluniau ar gyfer ymateb brys. Mae'r risgiau hyn yn ymwneud ag **oedi mewn ymateb brys** sy'n achosi niwed i gleifion yn y gymuned ac effaith cadw ambiwlansys y tu allan i adrannau achosion brys (**oedi wrth drosglwyddo**). Fodd bynnag, mae pwysau ar draws y system i raddau helaeth y tu hwnt i'n rheolaeth, ac rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i liniaru'r risgiau hyn.

Mae natur eang y risgiau ar draws meysydd gweithredol a chorfforaethol yn adlewyrchu ein ffocws strategol.

Mae Fframwaith Sicrwydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn darparu llinell olwg glir i reolaethau, sicrwydd cysylltiedig, a chamau y gallwn eu cymryd i liniaru risgiau.

Mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnwys camau gweithredu i reoli a lliniaru risgiau corfforaethol, megis y canlynol:

- Cynnydd Trawsnewid Model Clinigol
- Cynlluniau strategol ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Ymrwymiad i'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol
- Mynd i'r afael ag argymhellion yn Ymchwiliad Arena Manceinion
- Ein Cynllun Digidol
- Ein Cynllun Gweithlu Strategol
- Ein Cynllun Ansawdd
- Ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio
- Ein Hamcanion Llesiant

Yn ogystal, bydd camau gweithredu penodol sy'n ymwneud â llywodraethu integredig, Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd strategol, ac archwaeth risg yn parhau drwy gydol y Cynllun Tymor Canolig Integredig, wedi'u cyflawni drwy gynlluniau cyfarwyddiaeth. Mae ein Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26 yn defnyddio'r gofrestr risg fel sail ar gyfer rhoi sicrwydd i'r bwrdd.

### Risg

Colli hyder rhanddeiliaid sy'n niweidio enw da'r Ymddiriedolaeth

Cyfraddau absenoldeb uchel yn effeithio ar ddiogelwch cleifion, lles staff a gallu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol

Oedi sylweddol wrth drosglwyddo gofal y tu allan i adrannau damweiniâu ac achosion brys yn cael effaith ar oedi wrth gael mynediad at ofal terfynol ac yn effeithio ar allu'r Ymddiriedolaeth i ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol

Anallu'r Ymddiriedolaeth i gyrraedd cleifion yn y gymuned gan achosi niwed a marwolaeth i gleifion

Anallu'r Ymddiriedolaeth i weithredu'r hyn a ddysgwyd o holl argymhellion perthnasol Ymchwiliad Arena Manceinion sy'n effeithio ar ei ymateb i ddigwyddiad mawr/digwyddiad anafusion torfol

### 3.7 Ein Hamcanion Llesiant wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** wedi bod yn berthnasol i Wasanaeth Ambiwlans Cymru ers 30 Mehefin 2024. Nod y Ddeddf yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn cydweithio i greu gwlad lewyrchus, diwylliannol cyfoethog, economaidd fywiog, iach ac addysgedig lle gall pobl ffynnu.



Er ein bod wedi bod **yn gweithio yn unol â'r Ddeddf ers 2015**, mae'n ofynnol i ni'n ffurfiol bellach amlinellu ein cyfraniad at y nodau llesiant hyn. Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, **rydym wedi datblygu amcanion llesiant drafft** gyda mewnbwn gan staff, **partneriaid undebau llafur**, ac adborth gan bartneriaid, rhanddeiliaid, cleifion, a'r cyhoedd. Mae'r amcanion eang hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad hirdymor i angerdd, pwrpas a chydweithio, gyda'r nod o'n gwneud yn un o sefydliadau angori cryfaf Cymru.

#### Ein Hamcanion Llesiant

##### Amcan un: **Cyflogwr sy'n Gymdeithasol Gyfrifol a Chynhwysol**

- cefnogi cymunedau a'r economi drwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a gwirfoddoli hirdymor i bobl sy'n byw ledled Cymru, ar bob pwynt yn eu gyrfa ac mewn amrywiaeth eang o rolau.
- parhau i ddatblygu gweithlu amrywiol a hyfforddedig fel bod ein cymunedau yn teimlo fel eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac yn ymwneud yn ein sefydliad.
- bod yn gyflogwr cynhwysol, gan adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ledled Cymru.
- gwerthfawrogi ein partneriaethau ag undebau llafur a gweithio mewn partneriaeth i greu sefydliad sy'n groesawgar, yn deg a lle gall pobl ffynnu.

##### Amcan Dau: **Sefydliad Arloesol a Chynaliadwy**

- bod ar flaen y gad ym maes gofal clinigol drwy harneisio technoleg mewn ffordd sy'n lleihau ein heffaith amgylcheddol ac sy'n gwella diogelwch a phrofiad cleifion.
- gwneud y gorau o'n Statws Ymddiriedolaeth Brifysgol i weithio gyda phartneriaid masnachol ac academiaidd i chwilio am ddatrysiadau yfory, heddiw.
- parhau i leihau ein heffaith amgylcheddol, trwy ddefnyddio atebion mwy cynaliadwy a charbon niwtral yn ein hystad, ein fflyd ac arferion gwaith, i sicrhau ein bod yn cyfrannu at Gymru wyrddach, lanach ac iachach.
- rheoli ein hasedau ariannol a ffisegol yn dda, fel y gallwn ddarparu gwasanaethau hyfyw ar gyfer y tymor hir ac fel y gall cymunedau ddibynnu arnom i fod yno pan fyddant ein hangen.

##### Amcan Tri:

- darparu gwasanaethau brys a gofal mewn argyfwng sy'n diwallu anghenion pobl Cymru, lle bynnag a phryd






# Darparwr Gofal Rhagweithiol, Hygyrch a Theg

- bynnag y mae eu hangen, gan wella canlyniadau a sicrhau y gall pobl fyw bywydau iachach am gyfnod hwy.
- gwella ein gwasanaethau a'n perfformiad yn barhaus, fel bod gan bobl Cymru ymddiriedaeth a hyder yn ein gallu i fod yno pan fyddant ein hangen fwyaf.
- cyd-gynhyrchu gyda'n cymunedau a'n partneriaid fodolau gofal sy'n parhau i ddiwallu anghenion esblygol pobl yng Nghymru ac yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig iddynt.
- helpu i wneud Cymru yn genedl o achubwyr bywyd drwy gefnogi addysg iechyd a hybu sgiliau adfywio cardiopwlmonaidd (CPR) gwylwyr, gan wella gwydnwch cymunedol.
- cofleidio ein rôl ddiwylliannol fel gwasanaeth ambiwlans cenedlaethol Cymru, gan hyrwyddo ein hiaith a'n treftadaeth tra'n datblygu ffyrdd arloesol newydd o ddarparu gofal sy'n gosod Cymru fel arweinydd ar y llwyfan cenedlaethol a rhyngwladol.

## Sut byddwn ni'n gwneud hyn i gyd?

Nod ein hamcanion llesiant yw creu newid ystyrlon ar gyfer Cymru iachach, fwy bywiog a llwyddiannus.


Bydd yr amcanion hirdymor, esblygol hyn yn llywio ein strategaeth a'n cynlluniau, gan sicrhau ffocws parhaus a chynnydd mesuradwy. Gan gydnabod na allwn gyflawni'r nodau hyn ar ein pen ein hunain, byddwn yn dilyn egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n cynnwys pum ffordd o weithio a fydd yn sail i'n dull gweithredu.

Pum ffordd o weithio	Sut mae'r cynllun hwn yn mynd i'r afael â'r ffyrdd o weithio
 Tymor hir	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae ein Cynllun Tymor Canolig Integredig yn seiliedig ar strategaeth hirdymor 'Sicrhau Rhagoriaeth' sy'n strategaeth ddeng mlynedd o 2019 i 2030.</li> <li>• Yn ystod oes y Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn byddwn yn dechrau gweithio ar ein strategaeth hirdymor nesaf.</li> </ul>
 Atal	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae gan y Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn ffocws cryfach ar rôl y gwasanaeth ambiwlans yn iechyd y boblogaeth ac anghydraddoldebau iechyd, gyda dull newydd o ymrddin â gofal iechyd yn seiliedig ar Werth yn cael ei ddatblygu.</li> </ul>
 Integreiddio	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r cynllun yn gynllun integredig, ariannol gytbwys sy'n triongli gweithgaredd, gweithlu a chyllid, ochr yn ochr ag ystyriaethau allweddol ar gyfer ein hystad a'n fflyd.</li> <li>• Mae'r cynllun yn alinio ac yn integreiddio gwasanaethau a strwythurau gwasanaeth sydd er budd cleifion, ein pobl a'r system ehangach yn cyd-fynd â blaenoriaethau ein comisiynwyr a'r gweinidog ar gyfer GIG Cymru</li> </ul>
 Cydwethio	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd 'Cydwethio yn Gyntaf' yn gysyniad a ddatblygir trwy gydol oes y Cynllun Tymor Canolig Integredig.</li> <li>• Rydym wedi cynnal archwiliadau enw da i bennu sut yr ydym yn cael ein gweld fel partner cydwethredol yn GIG Cymru a gwyddom fod gennym fwy i'w wneud â'n partneriaid yng Nghymru, y DU a ledled y Byd.</li> </ul>
 Cynnwys	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn gwrandao ac yn dysgu o brofiadau ein cleifion, da a drwg, gan gynnwys y cyhoedd a chleifion wrth ein helpu i ddylunio a darparu ein gwasanaethau. Byddwn yn sefydlu fforwm penodol ar gyfer ymgysylltu'n ffurfiol â'r cyhoedd a chleifion ac i fod yn gyfranogwr mwy gweithgar fel angor i sefydliad yn ein cymunedau.</li> <li>• Rydym wedi ymwymo i'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a byddwn yn cynnwys ein partneriaid undeb llafur ac aelodau eraill o staff nad ydynt yn undeb yn y penderfyniadau a wnawn, gan eu cynnwys yn gynnar yn y broses o drawsnewid a newid strategol.</li> </ul>

### 3.8 Sut rydym yn ffocysu ein cynllun.

Gyda'r heriau a'r cyfleoedd hyn ar flaen ein meddyliau, ac wrth gydnabod popeth y mae ein pobl wedi

gweithio'n galed i'w gyflawni dros y blynyddoedd diwethaf i ddod â ni i'r pwynt hwn, rydym yn glir bod yn rhaid canolbwyntio'n **bwrpasol ar gyflawni tair blaenoriaeth allweddol:**



- **Trawsnewid** y ffordd yr ydym yn darparu gofal gyda phartneriaid Byrddau Iechyd drwy ddatblygu, cytuno a gweithredu **model ymateb clinigol newydd** a fydd yn rhoi'r cyngor a'r gofal iawn **i'n cleifion**, yn y lle iawn, bob tro ac yn lleihau niwed. Mae ein

blaenoriaethau penodol wedi'u nodi yn Adran 4 sy'n nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud ar gyfer cleifion sy'n defnyddio gwasanaethau 111, 999 a Gofal Ambiwlans;

- Gwneud popeth yn ein rhodd i wella profiad **ein pobl** yn y gweithle, gan eu galluogi i fod y gorau y gallant fod. Mae'r blaenoriaethau i'w gweld yn Adran 5; a
- Darparu **gwerth a chynaliadwyedd** eithriadol, yng nghyd-destun cyllid, yr amgylchedd a Gofal Iechyd sy'n Seiliedig ar Werth. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn Adran 10 'Gwerth a Chynaliadwyedd'.

#### Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd



Byddwn yn adeiladu ar weithredu Rhaglen Datgarboneiddio y Bwrdd yn llwyddiannus er mwyn integreiddio datgarboneiddio a chynaliadwyedd ymhellach ledled yr Ymddiriedolaeth a hyrwyddo perchnogaeth ar draws yr holl gamau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio

Eleni rydym wedi myfyrio ar sut y dylai'r **pum ffordd o weithio** ein cefnogi i gyflawni'r blaenoriaethau hyn, yn y modd yr ydym yn gweithio i **gynnwys** ein pobl, y cyhoedd a'n partneriaid i ddatblygu gwasanaethau **integredig** sy'n addas ar gyfer **cenedlaethau'r dyfodol**, wedi'u darparu **ar y cyd** â'r rhanddeiliaid allweddol hynny, gyda ffocws cliriach ar **iechyd y boblogaeth** ac **atal a chynhwysiant**.

## 4. Ein Cleifion

**Amcan strategol 1 – Darparu'r gofal neu'r cyngor iawn, yn y lle iawn, bob tro**

### 4.1 Datblygu ein model gwasanaeth clinigol

Rydym bellach yn ail flwyddyn ein Rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol uchelgeisiol, gan ddatblygu ein Model Ymateb Clinigol yn Fodel Gwasanaethau Clinigol integredig. Mae'r trawsnewid hwn yn hanfodol i'n hamcan strategol i ddarparu'r **gofal neu'r cyngor iawn, yn y lle iawn, bob tro**. Mae'r rhaglen yn cynrychioli newid sylfaenol yn y ffordd yr ydym yn darparu gofal, gan symud tuag at fodel cwbl integredig sy'n canolbwyntio ar y claf. Trwy drosoli arloesedd, meithrin cydweithio, a gwreiddio arweinyddiaeth glinigol,

byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau'n parhau i ymateb i anghenion ein cymunedau ac adeiladu system gofal iechyd gwydn ar gyfer y dyfodol.


Mae'r model esblygol yn symud oddi wrth ffocws ymateb brys sy'n seiliedig ar draws gludiad tuag at fodel integredig sy'n cysylltu ein gwasanaethau craidd â system gydlynol. Mae'r dull hwn yn galluogi WAST i ddiwallu anghenion gofal iechyd pobl Cymru yn well drwy gynnig ystod ehangach o opsiynau gofal, gan gynnwys mynd i'r afael ag anghenion brys ac anghenion mewn argyfwng yn y gymuned.

Mae modelu hirdymor yn dangos, wrth i'r model wreiddio a dangos ei fanteision, y byddem yn gallu dechrau addasu'r cydbwysedd adnoddau, fel bod mwy o adnoddau'n cael eu cyfeirio at y pwyntiau mynediad yn 111, 999 a gofal ambiwlans a dewisiadau amgen i ymateb wyneb yn wyneb, gyda llai o angen o bosibl am ambiwlansys brys. Fodd bynnag, bydd yr amnewidiad hwn o adnoddau yn cymryd amser dros gyfnod y Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn yn absenoldeb buddsoddiad ysgogi.

Yn ei flwyddyn gyntaf, fe wnaeth y rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol flaenoriaethu gwelliannau gwasanaeth cyflym i wella diogelwch dros y gaeaf. Eleni, rydym yn symud ymlaen tuag at wasanaeth mwy integredig gan gydweithio'n agosach â phartneriaid system i fireinio a phrofi'r model arfaethedig, gan sicrhau aliniad â'r system gofal brys a brys ehangach sy'n ymgorffori argymhellion adolygiad Grŵp Gorchwyl Targed Ambiwllans Llywodraeth Cymru o'r targed ymateb Coch 8 munud wrth iddynt ddod i'r amlwg (gweler adran 4.3 isod).

Mae'r Model Gwasanaethau Clinigol datblygedig wedi'i gynllunio i gael ei arwain yn glinigol, ei ganolbwyntio ar y claf a'i integreiddio ar draws gwasanaethau lluosog. Er mwyn cyflawni'r trawsnewid hwn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Gwreiddio gwneud penderfyniadau **dan arweiniad clinigol**: Penderfyniadau gofal dan arweiniad clinigol o gyswllt cyntaf gyda'r claf, gan sicrhau ymatebion amserol, personol, lleihau ymyriadau diangen a chanlyniadau gwell.
- Gwella **cysylltedd** system: Integreiddio systemau, prosesau a staff ar draws WAST a'u hategu gan atebion digidol i ddarparu profiadau cyson i gleifion a sicrhau'r effeithlonrwydd adnoddau mwyaf posibl.
- Cynnig **dewis** trwy opsiynau ymateb amrywiol: Bydd ehangu llwybrau ymateb mewn cydweithrediad â'r system ehangach yn galluogi triniaethau diogel yn y gymuned tra'n sicrhau bod anfon ambiwlansys yn cael ei flaenoriaethu ar gyfer anghenion critigol.
- Cryfhau llwybrau **cydweithredol**: Bydd partneriaethau gyda Byrddau Iechyd, comisiynwyr, a gwasanaethau cymunedol yn creu llwybrau gofal a rennir, gan alluogi cleifion i gael mynediad at y gwasanaethau lleol mwyaf priodol.



## 4.2 Cyrchu ein gwasanaethau drwy 111 a 999

### Sut olwg sydd ar dda

- Mae cleifion yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth 111 ac yn ei ddewis fel eu porth gofal dewisol
- Mae cleifion yn hyderus bod y gwasanaeth yn eu llywio'n ddiogel drwy'r system iechyd a gofal
- Mae cleifion yn dilyn yr wybodaeth a'r cyngor a roddir
- Mae cleifion yn cael asesiadau clinigol o bell amserol o ansawdd uchel ac nid oes angen ymyrraeth bellach ar lawer ohonynt
- Lle bo angen, mae cleifion yn cael eu bwcio'n uniongyrchol ac yn ddi-dor i'r gwasanaeth cywir

### Beth fydd yn wahanol?

- Nifer yr ymweliadau â'r wefan a nifer y galwadau
- Mwy o ddefnydd o ryngweithio bot sgwrsio ac effaith ar nifer y galwadau
- Nifer y gwirwyr symptomau y defnyddir yn weithredol
- Cyfran uwch o ymgynghoriadau a gaewyd heb fod angen unrhyw waith dilynol
- Cyfran uwch o gamau nesaf wedi'u bwcio'n ddi-dor



### Cyngor digidol ar-lein

Cyngor Digidol ar-lein



*Porth digidol modern, hawdd ei gyrraedd, hawdd ei ddefnyddio wedi'i integreiddio ag Ap GIG Cymru a'r gwasanaeth teleffoni 111, sy'n gweithredu fel porth i'r wybodaeth, y cyngor a'r gofal sydd eu hangen ar gleifion.*

Ar draws GIG Cymru, mae cyfle i weithio gyda phartneriaid i adeiladu ar ein llwyfannau digidol i optimeiddio'r cymorth i gleifion, gofaluwyr, dinasyddion, trinwyr galwadau a chynghorwyr clinigol. **Mae gwefan GIG 111 Cymru** yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol, a gwelwn gyfleoedd i alinio ei datblygiad yn agosach â **strategaeth ddigidol a data Cymru**. Mae'n debygol, yn y dyfodol, mai Ap GIG Cymru fydd y porth digidol ar gyfer pobl Cymru sydd angen cyngor gofal brys a chyfeirio, a bydd angen i'n cynnig digidol gael ei integreiddio'n llawn. Dros y tair blynedd nesaf, byddem yn disgwyl gweld **ein sianeli digidol a theleffoni yn cael eu hintegreiddio** fel bod cleifion yn gallu trosglwyddo'n ddi-dor o un i'r llall.



Byddwn yn rhoi mynediad i gleifion at wasanaethau'r GIG drwy **lwyfan digidol modern, integredig drwy GIG 111 Cymru**. Bydd y platfform hwn yn gwella hygyrchedd i wybodaeth iechyd amserol a chywir, **gyda chefnogaeth botiau sgwrsio, gwirwyr symptomau, ac offer eraill**. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan waith i gyflawni gwelliannau i'n cyfeiriadur gwasanaethau mewnol a chefnogi datblygiad cenedlaethol cyfeiriadur gwasanaethau GIG Cymru.



Bydd gwaith hefyd yn dechrau i **nodi offeryn Gwirio Symptomau ar-lein sy'n cydymffurfio ac yn effeithiol** yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn fel elfen allweddol o'r wefan. Ceir asesiad dichonoldeb a buddsoddiad yn ystod rhan gynnar 2025/26 ar gyfer gweithredu **cynorthwydd rhithwir wedi'i integreiddio â thechnoleg deallusrwydd artiffisial roboteg**, gyda chyflenwi ac integreiddio gwirwyr symptomau ar-lein ar gyfeiriadur gwasanaethau mewnol GIG Cymru yn welliant pellach

yn ystod blwyddyn 2 o'r cynllun hwn.

Byddwn yn datblygu **map trywydd cyflenwi strategol** a chynllun sy'n amlinellu cerrig milltir allweddol, adnoddau, a llinellau amser ar gyfer datblygiad ar-lein hirdymor GIG 111 Cymru, gan adolygu a diweddarau'r cynllun yn rheolaidd i gyd-fynd ag anghenion defnyddwyr, datblygiadau technolegol, a thueddiadau'r diwydiant. Bydd angen i ni archwilio cyfleoedd ariannu, gan gynnwys cyllid y llywodraeth drwy gomisiynwyr y GIG a chyfleoedd ariannu a buddsoddi ehangach yn y sector cyhoeddus. Bydd **system rheoli cynnwys** effeithiol yn hanfodol i wefan lwyddiannus a byddwn yn gweithio i nodi a gweithredu hyn drwy gydol y Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn i wella cynnwys dros y tair blynedd nesaf. A thrwy **integreiddio y 111 gwefangydag Ap GIG Cymru** bydd cleifion yn cael eu grymuso i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a llywio'n uniongyrchol i'r gofal neu'r cyngor unigol sydd ei angen arnynt.

### Trin galwadau

*Ateb galwadau'n gyflym, brysbennu cychwynnol ac atgyfeirio ymlaen, rhan o'r porth i unrhyw un ag anghenion gofal arferol neu frys.*



Mae **perfformiad ateb galwadau** yn gyflym ac o ansawdd uchel yn allweddol i brofiad rhagorol y claf ac yn darparu hyder yn y gwasanaeth. Rydym wedi cyflawni gwelliannau sylweddol mewn perfformiad trin galwadau ac amseroedd ffonio'n ôl clinigol yn ystod y 12 mis diwethaf, gan gyrraedd y targedau ar gyfer sawl mis. Mae angen gwelliannau pellach a chysondeb ar draws yr wythnos o hyd.

Bydd ymdrechion **recrwtio a hyfforddi** wedi'u targedu yn sicrhau ein bod yn cyflawni niferoedd staff trin galwadau a gomisiynir. Rydym wedi bod yn cynnal **adolygiad o arferion rhestrau dyletswyddau**, sydd wedi cynnwys elfen o alw a chapasiti. Rydym yn rhagweld y byddwn yn mynd ymlaen i gynnal **adolygiad rhestr ddyletswyddau llawn** yn 2025/26 yn gysylltiedig â'r canfyddiadau. Bydd gweithredu mesurau gwella perfformiad a phrosesau, lleihau lefelau salwch, adolygu'r cymysgedd sgiliau a chyfleoedd dilyniant gyfa ar draws 111 a 999, a gwireddu'r buddion o weithredu systemau 111 yn ein galluogi i **wneud y mwyaf o'r gwerth o'n hadnodd trin galwadau** ac felly sicrhau gwelliannau parhaus mewn amseroedd ateb galwadau.

Byddwn yn gwella ein **llwyfannau digidol** i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal integredig yn effeithiol, gan gynnwys cyflwyno un system **Anfon gyda Chymorth Cyfrifiadur** ar gyfer gofal integredig (gydag integreiddio porth clinigol Cymru) a'r **System Ffrydio Blaenoriaethu Galwadau** sydd ar gael i'n canolfannau cyswllt, sy'n galluogi trinwyr galwadau i roi cyngor ac atgyfeiriadau diogel ac effeithiol i ystod ehangach o alwadau, gan ganiatáu'r potensial i drinwyr galwadau 999 gau galwadau o bell.




Nododd adolygiad o wasanaethau a gynhaliwyd ar draws WAST yn 2024/25 arbedion effeithlonrwydd posibl wrth ymdrin â galwadau, gan gynnwys y cyfle i drinwyr galwadau yn **111, 999 a gofal ambiwlans i fod yn fwy aliniedig** yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae hyn i'w ystyried yn ystod cyfnodau ddiweddarach y Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn.

Yn gynnar yn 2025/26 byddwn hefyd yn gweld y **ganolfan gyswllt newydd yn Nhŷ Elwy** yn gwbl weithredol.

Amcan yr IMTP	Blwyddyn 1 (CADARN)	Blwyddyn 2 (AMLINELLIAD)	Blwyddyn 3 (DANGOSOL)
Cynnig digidol modern, hygyrch, hawdd ei ddefnyddio ac integredig	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynllun strategol ar gyfer gwefan GIG 111 wedi'i ddatblygu erbyn diwedd Ch3</li> <li>Adnodd Gwirio Symptomau Ar-lein yn ystod 2025/26</li> <li>System Rheoli Cynnwys wedi'i rhoi ar waith yn ystod 2025/26</li> <li>Cynorthwy-ydd Rhithwir wedi'i weithredu erbyn diwedd Ch2</li> <li>Cwblhawyd yr achos dros welliannau i gyfeiriadur gwasanaethau mewnol WAST erbyn diwedd Ch1</li> <li>Cyfeiriadur gwasanaethau mewnol wedi'i integreiddio â gwefan 111 yn dilyn cymeradwyo achos busnes</li> <li>Cefnogi gwaith system gyfan i ddatblygu cyfeiriadur gwasanaethau Cymru gyfan drwy gydol 2025-27</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynllun gweithredu ar gyfer y wefan ar waith (yn amodol ar gymeradwyaeth cynllun strategol)</li> <li>Offeryn gwirio symptomau ar-lein i fod yn weithredol</li> <li>Bydd ymarfer gwerthuso System Rheoli Cynnwys i ganfod cynhyrchion blaenllaw yn cael ei gwblhau</li> <li>Gwelliannau i gynnwys clinigol a cynllun gweledol gwefan GIG 111 wedi'u cwblhau</li> <li>Gwella cynnwys clinigol gwefan 111 yn barhaus fel busnes fel arfer</li> <li>Integreiddio Cynorthwy-ydd Rhithwir (gwiriwr symptomau ar-lein a chyfeiriadur gwasanaethau GIG Cymru gyfan)</li> <li>Datblygu integreiddio ag ap GIG Cymru</li> <li>Cefnogi gwaith system gyfan i ddatblygu cyfeiriadur gwasanaethau Cymru gyfan</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i weithredu'r wefan</li> <li>Cysylltiad System Rheoli Cynnwys â threfniadau cynnal (i'w gadarnhau)</li> <li>Gweithio gyda phartneriaid i ddefnyddio a chynnal cyfeiriadur gwasanaethau GIG Cymru gyfan</li> </ul>
Ateb galwadau cyflym, brysbennu cychwynnol ac atgyfeirio ymlaen	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd un CAD yn cael ei gyflwyno ar gyfer gofal integredig erbyn diwedd Ch1</li> <li>Adolygu a gwerthuso'r galw a chapasiti yn 111 gydag adolygiad rhestr ddyletswyddau wedi'i gwblhau erbyn diwedd Ch4</li> <li>Ehangu'r defnydd o'r System Ffrydio Blaenoriaethu Galwadau (CPSS) erbyn diwedd Ch3</li> <li>Canolfan Gyswilt Glinigol newydd yn Nhŷ Elwy yn gwbl weithredol yn Ch1</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Datblygu cynnig ar gyfer trefniadau masnachol ar gyfer defnyddio CPSS</li> <li>Adolygu effaith prosesau a model presennol a defnyddio canfyddiadau i lywio camau gweithredu nesaf.</li> <li>Gweithredu ac ymgorffori ail-drefnu rhestr ddyletswyddau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Canlyniadau trosglwyddo 2025 a 2026 i fusnes fel arfer ar gyfer wireddu buddion</li> </ul>

### 4.3 Ymateb i argyfwng - 999



#### Ymateb i argyfwng

Ateb galwadau 999 ar unwaith, penderfyniad achrededig o anghenion galwyr a phrosesau effeithlon ac effeithiol i ddyrannu ac anfon yr adnoddau cywir.

Roedd cyflwyno'r **rôl Llywiwr Clinigol**, sef uwch glinigydd sy'n gyfrifol am adolygu cleifion o fewn y grwpiau hyn, yn arloesiad allweddol wrth gyflenwi ein Cynllun Tymor Canolog Integredig 2024/25. Bydd y Llywiwr Clinigol yn defnyddio ei arbenigedd a'i farn glinigol i asesu a yw'r gweithgaredd a nodwyd yn addas ar gyfer rheolaeth ddyfnach o bell neu a oes angen ymateb mwy di-oed. Mae hyn yn cynrychioli newid sylweddol: mae'r adolygiad yn canolbwyntio ar a yw achos yn briodol ar gyfer **rheolaeth bellach o bell gan ein Gwasanaeth Gofal Integredig o Bell (RICS)**, yn hytrach nag a oes angen anfon ambiwlans ar unwaith. Mae'r newid hwn yn caniatáu ar gyfer rheolaeth fwy hyblyg ac effeithiol o achosion brys posibl, gan sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal sy'n amserol ac yn briodol i'w hanghenion clinigol.





**Dechreuwyd gweithredu sgrinio clinigol cyflym ym mis Rhagfyr 2024** ar gyfer pob galwad categori gwyrdd, heb gynnwys y rhai gan Weithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd, a galwadau categori Oren 2. Mae elfen olaf y dull graddol hwn **yn cynnwys galwadau categori Oren 1** ac aeth yn fyw ym mis Chwefror 2025. Yn 2025/26 bydd Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn dylunio ac **yn cytuno ar lif y broses a'r metrigau ar gyfer galwadau sy'n dod gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol** sydd angen ymateb yn y gymuned (yn unol â'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer Llif Galwadau a Chatgoreiddio ehangach yn y Model Gwasanaethau Clinigol). Yn dilyn cymeradwyo'r model, bydd trefniadau cyflenwi a sicrwydd yn

cael eu cadarnhau.

**Mae monitro cychwynnol yn dangos bod 75% o'r digwyddiadau** sy'n cael eu sgrinio (data yn seiliedig ar 4760 o ddigwyddiadau dros gyfnod o 6 wythnos yn ystod y gaeaf) yn **addas ar gyfer asesiad pellach o bell**. Mae data heb ei wirio (ond hyderus) hefyd yn dangos cynnydd mewn cyfraddau ymgynghori a chau (lle gellir cau'r achos o bell) tuag at lefelau wedi'u modelu (Adolygiad Galw a Chapasiti EMS 2023) o tua 20%.

Rydym wedi **cwblhau dau allan o dri cham recriwtio a hyfforddi yn llwyddiannus**. Mae gan ein tîm gyfoeth o brofiad clinigol, gyda chefnid mewn llawdriniaethau EMS a gofal integredig, yn ogystal ag arbenigedd ychwanegol gan glinigwyr allanol sydd wedi ymuno â ni yn ddiweddar. O ganlyniad, rydym yn gweld cynnydd yn nifer y cleifion sy'n cael eu cyfeirio, eu hatgyfeirio a'u cyfnodau gofal yn dilyn gweithredu sgrinio clinigol cyflym. Bydd hyn yn ei dro yn gofyn am y capasiti cywir i gynnal sgrinio clinigol cyflym wrth i'r galw gynyddu.

Mae hyn yn gyson â'r hyn a nododd yr Adolygiad Galw a Chapasiti EMS 2023.



Ar adeg ysgrifennu hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cwblhau ei hadolygiad o darged ymateb Coch-8. Fel rhan o'r ffrwd waith Ymateb i Argyfwng byddwn yn ymateb i argymhellion yr adolygiad hwn a bydd ein model ymateb brys traddodiadol yn trosglwyddo i system â blaenoriaeth glinigol, gan ymgorffori **Sgrinio Clinigol Cyflym** ar gyfer galwadau 999. Byddwn yn datblygu fframwaith perfformiad newydd wedi'i siapio o amgylch dau gategori newydd – ataliad y galon porffor ac argyfwng coch. Bydd hyn yn golygu symud oddi wrth dargedau seiliedig ar amser fel y prif fesur o lwyddiant a chanolbwyntio ar 'adferiad cylchrediad digymell' fel y prif fesur o lwyddiant ar gyfer y categori 'ataliad y galon porffor'. Bydd hyn yn darparu cyfle a sbardun hynod bwysig i ni weithio gydag eraill ar draws y system gyfan i wella pob cyswllt yn y gadwyn oroesi, gan gysylltu'n agos ag Achub Bywyd Cymru i gynyddu cyfraddau CPR gwylwyr a diffibrilio cynnar.

Y flwyddyn nesaf (2025/26) bydd **menter Achub Bywyd Cymru yn cael ei chynnal yn WAST** gydag adnoddau'n symud o Weithrediaeth y GIG i'r Ymddiriedolaeth yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. Bydd y symudiad hwn yn cefnogiein ffocws parhaus ar wella'r gadwyn oroesi a chanlyniadau i'r bobl sy'n profi ataliad y galon y tu allan i'r ysbyty ac mae'n cyd-fynd â'n Hamcanion Llesiant gyda ffocws ar gynnwys y gymuned i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â **ffocws strategol cenedlaethol gan wasanaethau ambiwlans y DU ar y gadwyn oroesi, rôl gwirfoddolwyr** ac yn cynyddu hyder y cyhoedd i ymgymryd ag **adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR) gwylwyr**.

**Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithredol**

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r gwasanaeth 999 wedi wynebu pwysau sylweddol, gan effeithio'n andwyol ar brofiad cleifion a chanlyniadau i gleifion. Mae amseroedd ymateb ar draws yr holl categorïau cleifion yn parhau i fod yn uwch na'r hyn sy'n dderbyniol, gan arwain at niwed drwy oedi wrth ymateb, trosglwyddo cleifion am gyfnod hir mewn adrannau achosion brys, neu alw heb ei ddiwallu yn ystod y cyfnodau prysuraf. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ganolbwyntio ar fentrau i liniaru'r heriau hyn a lleihau niwed. Er gwaethaf y pwysau hyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i ymateb i fwy o gleifion yn y categori Coch mewn 8 munud nag erioed o'r blaen.

Mae amrywiaeth o ffactorau wedi effeithio ar hyn, gan gynnwys cynnydd pellach o 23% yn nifer y **galwadau coch**, a cholledion capasiti parhaus oherwydd oedi wrth **drosglwyddo cleifion i ysbytai** a oedd yn cyfrif am 26% o gapasiti trawsgludo ym mis Rhagfyr 2024. Yn 2025 byddwn yn ymgysylltu'n llawn â'r **tasglu cenedlaethol a sefydlwyd i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo**.

Er mwyn gwella effeithlonrwydd gweithrediadau ambiwlans, mae'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi rhaglen waith strwythuredig ar waith, gan dargedu meysydd allweddol megis symud ac amser ar y safle. Nod yr ymdrechion hyn, a ategir gan gydweithio ar draws cyfarwyddiaethau, yw gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Gan adeiladu ar weithrediad llwyddiannus CHARU, mae'r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar lenwi'r swyddi gwag sy'n weddill trwy raglen recriwtio wedi'i thargedu. **Bydd cynyddu argaeledd CHARU yn gwella gallu'r gwasanaeth i ymateb yn brydlon i anghenion critigol cleifion, gan wella canlyniadau.** Mae ein cynlluniau gweithredol yn parhau i ganolbwyntio ar recriwtio mewn ardaloedd gwledig ac ar fodel gweithredu sy'n cyfateb i anghenion unigryw poblogaethau gwledig.



Mae cyflwyno codennau trosglwyddo diwedd sifft ar ddau safle ysbyty allweddol, cyflwyno gwresogyddion amgen y tu mewn i ambiwlansys, ac ymdrechion i leihau sifftiau'n gor-redeg wedi cefnogi lles staff trwy wella'r amgylchedd gwaith a lleihau straen a phwysau personol. Ni ddylid diystyru canlyniad oedi hir wrth drosglwyddo i'n pobl. Mae'n ffynhonnell rhwystredigaeth sylweddol i'n pobl, gan rwystro staff a gwirfoddolwyr rhag cyflawni eu rhesymau dros ymuno a gall arwain at anaf morâl. Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i gymryd pob cam rhesymol i ddiwallu anghenion llesiant ein holl bobl. Mae lleihau sifftiau'n gor-redeg yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yn ein hymrwymadau i'n pobl (gweler adran 5.2).

Mae'r Ymddiriedolaeth yn adolygu ei fframwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth EMS i sicrhau llwybrau cadarn ar gyfer datblygu arweinyddiaeth. Bydd y fenter hon yn rhoi'r sgiliau a'r gwydnwch sydd eu hangen ar arweinwyr y dyfodol i wella gwasanaethau a chefnogi anghenion y gweithlu.

## Cymysgedd sgiliau

Yn 2024 cytunodd yr Ymddiriedolaeth, gyda chefnogaeth yr Undebau Llafur, i greu rôl newydd sef Ymarferwyr Ambiwllans Argyfwng. Dyma rôl band 5 sy'n deillio o fabwysiadu proffil swydd genedlaethol yng Nghymru a oedd yn berthnasol i'n Technegwyr Meddygol Brys band 4. Dros y 18 mis nesaf bydd Technegwyr Meddygol Brys sydd wedi dewis gwneud hynny yn trosglwyddo i'r rôl newydd gyda hyfforddiant ychwanegol mewn sgiliau clinigol ychwanegol, arweinyddiaeth a hyfforddiant. Bydd y rôl newydd yn fwy ymreolaethol na rôl flaenorol y Technegydd Meddygol Brys, a bydd gan staff wybodaeth glinigol ychwanegol a byddan nhw'n gallu dehongli canlyniadau diagnostig gan arwain at fwy o effeithlonrwydd ond hefyd yn gallu cyfeirio cleifion at lwybrau amgen sydd ar gael ar hyn o bryd i barafeddygon.

Mae canlyniad ariannol i'r newid, a bydd angen i ni gynnal adolygiad mawr o gymysgedd sgiliau ein criwiau rheng flaen yn EMS yn unol â'n Cynlluniau Gweithlu Strategol a chynlluniau ariannol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ymwneud ag arian yn unig ond mae'n ymwneud â'r defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o adnoddau, gan sicrhau ansawdd gwell i'n cleifion, a boddhad rôl i'n pobl, yng nghyd-destun y model clinigol esblygol.



Amcan yr IMTP	Blwyddyn 1 (CADARN)	Blwyddyn 2 (AMLINELLIAD)	Blwyddyn 3 (DANGOSOL)
Anfon yr adnoddau cywir yn effeithlon ac yn effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ymateb ffurfiol i'r adolygiad o alwadau coch erbyn diwedd Ch2</li> <li>Pontio i fodol ymateb brys â blaenoriaeth glinigol erbyn diwedd Ch3</li> <li>Adolygiad o gymysgedd sgiliau criwiau ymateb-argyfwng trwy gydol 2025/26</li> <li>WAST wedi cynnal Achub Bywyd Cymru erbyn Ch2</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Canlyniadau trosglwyddo 2025 i fusnes fel arfer ar gyfer gwireddu buddion</li> <li>Cynnal adolygiad o alw a chapasiti RCS yn dilyn gweithredu CMT ehangach yn RICS</li> <li>Canlyniad yr adolygiad cymysgedd sgiliau i'w weithredu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Canlyniadau trosglwyddo 2025 a 2026 i fusnes fel arfer ar gyfer gwireddu buddion</li> </ul>
Gweithiwr gofal iechyd proffesiynol ateb galwadau, ac archebu, ac anfon yr adnoddau cywir yn effeithlon ac yn effeithiol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lifau Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol wedi'u halinio i'n Model Gwasanaethau Clinigol datblygedig wedi'i ailgynllunio ar y cyd erbyn diwedd Ch4</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwerthusiad o lifau Gweithiwr Iechyd Proffesiynol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Canlyniadau trosglwyddo 2025 a 2026 i fusnes fel arfer ar gyfer gwireddu buddion</li> </ul>

#### 4.4 Gofal integredig o bell a chynllunio gofal – 111 a 999



##### Gwasanaeth gofal integredig o bell

*Tîm amlddisgyblaethol yn darparu asesiadau, cyngor ac atgyfeiriadau clinigol o bell yn amserol ac o ansawdd uchel i lwybrau sy'n diwallu anghenion cleifion. Ni fydd angen unrhyw ymyriad pellach ar lawer o gleifion.*

Y gwasanaeth cwbl integredig hwn fydd **conglfaen ein model gwasanaethau clinigol**. Bydd gan glinigwyr fynediad at ystod ehangach o lwybrau clinigol yn fewnol ac o fewn Byrddau Iechyd, gan gynnwys monitro o bell ac adnoddau arbenigol, gan sicrhau gofal personol. Ein bwriad yw alinio llwybrau a phrosesau ond hefyd dod â chapasiti clinigol o bell ynghyd yn y Ddesg Gymorth Clinigol ac 111 **fel tîm asesu clinigol o bell integredig yn 2025/26**.

Bydd ffrwd waith RICS yn y rhaglen Trawsnewid y Model Clinigol, yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol i wneud y trawsnewid hwn i'r model integredig:

- **Cynllunio a gweithredu prosesau:** gwella'r prosesau gweithredol i sicrhau bod y model integredig newydd yn cael ei gyflwyno'n effeithlon ac yn effeithiol;
- **Pobl a diwylliant:** i sicrhau aliniad strategol y gweithlu, gan gyflawni'r strwythurau tîm sydd eu hangen ar gyfer gofal integredig o bell;
- **Digidol:** rheoli a gwella llwyfannau digidol asesu clinigol o bell, cynllunio gofal a monitro o bell; ac
- **Ymarfer clinigol a phroffesiynol:** i sicrhau y darperir hyfforddiant ac addysg a datblygiad proffesiynol mewn gofal integredig o bell a gwneud penderfyniadau clinigol o bell.

Un o fanteision allweddol y model o bell yw bod anghenion cleifion yn cael eu diwallu heb fod angen eu hatgyfeirio ymlaen. Gallwn gyflawni hynny drwy gynyddu **capasiti a gallu ein timau clinigol** - tyfu, datblygu a grymuso ein gweithlu clinigol a rhoi iddynt yr hyfforddiant, y sgiliau, a'r cymorth cywir i ragori ym mhopeth maent yn ei wneud. Mae enghreifftiau o hyn i'w gweld yn ein rhaglen beilot 'Desg Gaeaf' newydd a'n swyddogaeth cynllunio gofal, lle gwelsom yr ymgynghorwyd â 33% o alwadau a'u cau drwy gyfeirio ar gyfer y gofal mwyaf priodol sydd ei angen, nad oedd yn adran achosion brys yn awtomatig.



#### Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd



Mae cyflwyno technoleg i gefnogi asesu o bell yn allweddol o fewn ein Cynllun Gweithredu Datgarboneiddio wrth i ni geisio manteisio ar gyfleoedd i ddarparu gofal yn nes at y cartref.

swyddogaethau clinigol y gwasanaethau hynny'n agos, sy'n ffocws allweddol yn 2025/26. Bydd y dull integredig hwn yn lleihau anfonadau argyfwng diangen, yn cefnogi gofal diogel yn y gymuned, ac yn gwella cyfleoedd datblygiad proffesiynol i glinigwyr, gan feithrin agwedd fwy ymatebol a chysylltiedig at ofal cleifion.

Nodwedd allweddol o'r gwasanaeth gofal integredig o bell wrth symud ymlaen fydd y **gallu i gynllunio gofal**, gan ddarparu cynlluniau byr neu hirach, a fydd yn galluogi **clinigwyr RICS i bennu'r llwybr atgyfeirio ymlaen mwyaf diogel a mwyaf priodol** ar gyfer y claf. Bydd hyn yn cael ei alluogi trwy weithredu galluoedd monitro o bell ac asesu clinigol fel ymgynghoriad fideo a thechnoleg iechyd gwisgadwy. Wrth wneud hynny byddwn yn cysoni ein cynlluniau ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a sut mae ein clinigwyr o bell yn cysylltu'n ddi-dor â phwyntiau mynediad sengl y Bwrdd Iechyd.



Byddwn yn parhau i gynyddu nifer yr **ymatebwyr lles cymunedol** i 400 (rolau gwirfoddol a sefydlwyd yn 2023/24 gyda tharged o 600 o wirfoddolwyr i gyd), gyda chefnogaeth y dechnoleg monitro o bell, er mwyn cefnogi pobl yn ddiogel gartref, neu mewn cartrefi gofal, wrth i ni ddatblygu cynllun gofal y gellir ei weithredu gan glinigwyr WAST neu tra'n aros am atgyfeiriad i'r llwybr priodol ar gyfer angen unigol y claf.

Ymhellach, trwy'r gwasanaeth gofal integredig o bell a hybiau tîm amlddisgyblaethol lleol a ddatblygwyd ar y cyd, **bydd uwch ymarferwyr a chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd yn gweithio i reoli cleifion yn well yn y gymuned**, i nodi cyfleoedd i gyfeirio ymateb amgen a/neu gyfeirio neu ailgyfeirio gofal claf i ran fwy priodol o'r gwasanaeth iechyd gyda phersbectif lleol. Bydd yr opsiynau ar gyfer y clinigwyr hyn yn cynnwys 'cadw' cleifion drwy gynllun gofal tymor byr y cytunwyd arno, trefnu ymateb ar gyfer amser neu ddyddiad diweddarach neu weithio ar y cyd â chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd i hwyluso atgyfeiriad ymlaen. Bydd rheoli cyfran o gleifion yn briodol yn y modd hwn, heb ddefnyddio ymateb ambiwlans brys traddodiadol, **yn rhyddhau capasiti'r** math hwn o adnoddau gan sicrhau, os bydd claf yn cyflwyno yn y system bod 'angen' ambiwlans arnynt, yna bydd un ar gael iddynt.



Yn 2024/25 fe wnaethom gynyddu **capasiti a gallu ein timau clinigol** yn 111 a 999 ac ehangu'r sgiliau sydd ar gael trwy recriwtio arbenigwyr mewn meysydd fel pediatreg, fferylliaeth, iechyd anadlol ac iechyd meddwl. Mae datblygiad parhaus y model yn gofyn am gostau ychwanegol, na ellir eu hosgoi, i sicrhau bod gennym y systemau gweithio diogel ar waith. Mae angen i ni ddylunio, ymgynghori ar, a **rhoi ar waith amrywiaeth o strwythurau arwain a rheoli** ar draws uwch reolwyr a rheolwyr canol, rheolwyr rheng flaen, gwybodaeth iechyd, deintyddol, ac archwilio i sicrhau bod y newidiadau rydym yn eu gwneud i esblygu'r model clinigol yn gadarn ac yn gynaliadwy. Bydd angen i ni hefyd **gynyddu nifer y clinigwyr** hyd at 16 cyfwerth ag amser llawn sy'n gweithio o bell i ddelio â'r galw sy'n dod drwodd yn awr ac i roi'r dull cynllunio gofal ar waith.

#### Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd



Rydym bellach wedi sefydlu model gweithio ystyryth sy'n cefnogi llai o allyriadau cymudo. Byddwn yn sicrhau bod ein hystâd yn addas i'r dîben er mwyn darparu manau hyblyg, croesawgar a chydweithredol i'n pobl. Byddwn yn parhau i groesawu cyfleoedd i roi cysylltiadau agosach i'n pobl â byd natur i gefnogi eu lles.

Fel rhan o'n cynnig o ran recriwtio a chadw'r staff arbenigol hyn, rydym yn parhau i symud ymlaen â'r **opsiynau gweithio gartref**. Byddwn hefyd yn datblygu manyleb ac uchelgais ar gyfer **ein cynnig gwasanaeth iechyd meddwl**.

#### Mynediad at lwybrau

*Ystod eang o lwybrau ar gael drwy'r gwasanaethau 111 a 999, sy'n fwyfwy ar gael i'w harchebu'n uniongyrchol, gan integreiddio gwybodaeth yn ddi-dor i gael y gofal iawn i gleifion yn y lle iawn.*



Fel y nodir yn y bwriadau comisiynu, byddwn yn gweithio gyda'r Rhaglen Chwe Nod a'r Byrddau Iechyd ar ffrydiau gwaith trawsnewidiol, yn benodol i ddatblygu dulliau amgen o reoli cleifion yn GIG 111 Cymru. Bydd hyn yn cynnwys **profion newid ar gyfer atgyfeiriadau i fferylliaeth a meddygon teulu**. Byddwn yn gweithio gyda Byrddau Iechyd i gynyddu'r llwybrau sydd ar gael i glinigwyr 111 a 999 fel rhan o'n gwaith aml-broffesiynol a datblygu ar gyfer y bobl sydd ag angen gofal sylfaenol brys, gyda'r nod o leihau'n sylweddol nifer y cleifion sy'n cael eu cyfeirio at adrannau achosion brys.

Amcan yr IMTP	Blwyddyn 1 (CADARN)	Blwyddyn 2 (AMLINELLIAD)	Blwyddyn 3 (DANGOSOL)
Asesiad, cyngor ac atgyfeirio clinigol amserol o ansawdd uchel	<ul style="list-style-type: none"> <li>Lifoedd galwadau a chategoriâu newydd i'r <b>Gwasanaeth Gofal Integredig o Bell (RICS)</b> wedi'u gweithredu erbyn diwedd Ch4</li> <li>Prosesau a pholisiau i ddarparu <b>tim clinigol gofal integredig</b> effeithiol wedi'u gweithredu erbyn diwedd Ch3</li> <li><b>Datrysiadau monitro o bell</b> yn cael eu gweithredu erbyn Ch3 (yn amodol ar gyllid)</li> <li><b>Model gweithio o bell ar gyfer RICS</b> wedi'i weithredu erbyn diwedd Ch3</li> <li>Datblygodd cyfleoedd i ehangu rolau yn RICS (fel <b>Tim Aml-Broffesiynol</b>) trwy gydol 2025-2027</li> <li><b>Strwythurau arweinyddiaeth a rheolaeth</b> yn cael eu defn yddio erbyn Ch2</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li><b>Adolygu effaith y model</b> a defnyddio canfyddiadau i lywio camau gweithredu nesaf</li> <li>Dilyniant parhaus ac archwilio cyfleoedd i gynnal <b>rolau Aml-Broffesiynol</b></li> <li><b>Gwerthuso a gwella swyddogaeth RICS yn barhaus</b> a defnyddio canfyddiadau i lywio camau gweithredu nesaf</li> <li>Datblygu a defnyddio model gwasanaeth hirdymor ar gyfer <b>monitro o bell a thechnoleg gwisgadwy</b></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Canlyniadau trosglwyddo 2025 a 2026 i fusnes fel arfer ar gyfer gwreiddu buddion</li> </ul>
Trosglwyddo galwyr yn ddi-dor i ystod eang o lwybrau sydd ar gael	<ul style="list-style-type: none"> <li>Swyddogaeth weithredol <b>Cynllunio Gofal</b> cynaliadwy wedi'i gweithredu erbyn Ch3</li> <li><b>Llwybrau ar gyfer cyfeiriadur gwasanaethau y GIG</b> wedi'u nodi gan Ch4</li> <li>Canlyniad <b>profion newid meddygon teulu / fferyllfa</b> wedi'u cwblhau erbyn diwedd Ch2</li> <li>Manyleb ac uchelgais ar gyfer y <b>gwasanaeth Iechyd Meddwl</b> i'w ddatblygu a'i weithredu trwy gydol 2025/26</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li><b>Adolygu effaith y model</b> a defnyddio canfyddiadau i lywio camau gweithredu nesaf</li> <li>Datblygu <b>datrysiad data integredig</b> drwy'r Storfa Data Genedlaethol ar gyfer GIG Cymru</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Canlyniadau trosglwyddo 2025 a 2026 i fusnes fel arfer ar gyfer gwreiddu buddion</li> </ul>

## 4.5 Ymateb Brys yn y Gymuned

### Ymateb Brys yn y Gymuned

*Ystod o glinigwyr sy'n darparu gwasanaeth asesu, gofal a chyfeirio o ansawdd uchel yn y fan a'r lle, yn syth neu'n amserol.*





Lle nad oes llwybrau gofal presennol yn bodoli yn y gymuned, byddwn yn gweithredu dull cyson o ddarparu gofal cymunedol brys ledled Cymru. Mae cynnig y gwasanaeth hwn wedi'i gynllunio i ddiwallu'n well anghenion ein cleifion sy'n cyflwyno drwy 999 ac 111, lle yn hanesyddol

byddai anfon ambiwlans wedi bod yr unig opsiwn. Bydd yn cynnwys ymyriadau wyneb yn wyneb, megis ymateb cyflym i gwympiadau, gofal parafeddygol uwch, ac ymyrraeth mewn argyfwng iechyd meddwl. Bydd y dull hwn yn gwella mynediad at ofal yn y gymuned, yn atal trawsgludiad diangen i adrannau achosion brys, ac yn sicrhau darpariaeth deg o wasanaethau.

## Ymarferwyr Parafeddygol Uwch a Gofal Diwedd Oes

Mae Ymarfer Uwch yn cynnig mynediad amserol i bobl Cymru at glinigwyr medrus iawn sy'n gallu rheoli lefel gynyddol o gymhlethdod ac eiddilwch trwy ddarparu asesiad uwch, penderfyniad sy'n canolbwyntio ar y claf gan lywio mynediad at lwybrau amgen neu ddarparu triniaeth briodol yn eu man gofal dewisol (gan gynnwys meddyginiaethau). Ein huchelgais fu tyfu ein gweithlu ymarfer uwch, dyma yw ein huchelgais o hyd ond o fewn yr amlen ariannol bresennol bydd angen arafu twf ein niferoedd o Ymarferwyr Parafeddygol Uwch yn 2025/26, gyda 10 Ymarferydd Parafeddygol Uwch ychwanegol yn 2025. Fel y nodir yn adran 4.4 uchod, y ffocws dros y tair blynedd nesaf bydd ehangu'r defnydd o rôl llywiwr yn y gymuned lleol, yn dilyn gwerthusiad, i gynnig gwasanaeth mwy teg a chyson ar gyfer pob un o'r saith Bwrdd Iechyd ac ymgorffori Ymarferwyr Parafeddygol Uwch o fewn y Byrddau Iechyd gan ddefnyddio ein modelau cylchdro y gellir eu comisiynu mewn lleoliadau gofal sylfaenol a gofal lliniarol, wedi'u hategu gan Brif Ymarferwyr Parafeddygol Uwch a sefydlwyd yn 2024/25 i ddarparu arweinyddiaeth drwy oruchwyliaeth, arweiniad proffesiynol a safonau (gweler adran 9.2).

Mae defnyddio allweddî rhestr ddyletswyddau seiliedig ar alw wedi paratoi'r ffordd ar gyfer **adolygiad rhestr ddyletswyddau Ymarferwyr Parafeddygol Uwch**. Bydd hyn yn gwneud y gorau o argaeledd Ymarferwyr Parafeddygol Uwch ar gyfer gofal cleifion tra'n **cysoni cyfrifoldebau cylchdro, fel dyletswyddau gofal sylfaenol a rolau clinigol o bell, â gofynion gweithredol**.



Mae gofal diwedd oes yn cynnwys y **driniaeth, y gofal a'r gefnogaeth i bobl y credir eu bod yn eu blwyddyn olaf o fywyd** (Marie Curie, 2024) a byddai'n cynnwys cleifion, er enghraifft, â salwch terfynol, cyflwr iechyd y disgwylir iddynt farw ohono neu sy'n dioddef o hwn ar y cyd â mynd yn hŷn. Bydd y gwaith hwn yn cyd-fynd â gwaith rhaglen chwe nod mewn gofal brys a gofal mewn argyfwng i bobl ar ddiwedd eu hoes ac mae wedi bod yn ffocws yn ein gweithgor gofal iechyd sy'n seiliedig ar werthoedd.

**Mae rôl parafeddygon gofal lliniarol wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf, gan weithio mewn dwy ardal Bwrdd Iechyd** (Caerdydd a'r Fro a Bae Abertawe). Maen nhw'n cael effaith ddwys ar ein gallu i ofalu am bobl yn ystod dyddiau olaf bywyd gartref heb fod angen eu cludo i'r ysbyty. Mae'r rôl wedi esblygu o fodel cylchdro gyda gwasanaethau gofal lliniarol i leoli dan arweiniad clinigol gan lywyr Ymarferwyr Parafeddygol Uwch mewn canolfannau clinigol Byrddau Iechyd yn yr ardaloedd hynny. Y cam nesaf ar gyfer darpariaeth parafeddygon gofal lliniarol yn y dyfodol fydd datblygu'r arbenigedd o fewn y sefydliad Ymarfer Uwch. **Mae cyllid elusennol Marie Curie yn rhoi cyfle i gefnogi'r garfan gychwynnol o Ymarferwyr Parafeddygol Uwch gydag addysg a lleoliad** ac mae'r tîm clinigol yn WAST yn gweithio i sefydlu'r llwybr addysg Ymarferwyr Parafeddygol Uwch amgen hwn o fewn carfannau Ymarferwyr Parafeddygol Uwch

2025/26 ac o bosibl 2026/27 gan ddefnyddio bylchau swyddi gweigion Ymarferwyr Parafeddygol Uwch presennol, tua 8 **cyfwerth ag amser llawn yn y flwyddyn gyntaf**.

Unwaith y byddant wedi'u sefydlu, bydd y clinigwyr hyn ar gael i weithio o fewn eu cylchdro WAST fel rhan o'r gwasanaeth gwasanaethau ymateb cymunedol brys a gynigir. Trwy' gylch y Cynllun Tymor Canolig Integredig bydd angen i ni ddatblygu cynllun ar gyfer gweithredu'r clinigwyr hyn o fewn y model gwasanaeth tra'n gwerthuso'r effaith ar gleifion a chlinigwyr.

## Ymateb i gwympiadau

Dros y 3 blynedd nesaf byddwn yn gweithio gyda Byrddau Iechyd a thîm y rhaglen chwe nod i gefnogi gweithrediad y Fframwaith Cwmpadau Cenedlaethol. Bydd hyn yn gofyn am archwiliad clinigol o gwmpwyr i ddatblygu cynllun mewnol ar gyfer ein gwasanaethau Lefel 1 a Lefel 2.

- **Lefel 1 (ymatebwr cwmpadau):** Bydd y mwyafrif o bobl sy'n cwmpo angen ymatebwr cwmpadau lefel 1 a fydd yn ceisio darparu ymateb (neu byddwn yn rheoli o bell) o fewn awr. Byddwn yn datblygu diwygiadau trawsnewidiol i reoli digwyddiadau cwmpadau lle bydd y galwad 999 cychwynnol yn cael ei sgrinio drwy Sgrinio Clinigol Cyflym a'i reoli gan RICS a fydd yn datblygu'r cynllun gofal ar gyfer defnyddio ymateb lefel 1, gan sicrhau y gellir rheoli cwmpwyr nad ydynt wedi'u hanafu ar lwybrau cwmpadau cymunedol.
- **Lefel 2 (ymatebwr cwmpadau uwch):** Mae amrywiaeth o opsiynau mewn ardaloedd Byrddau Iechyd gwahanol ar gyfer pobl sy'n cwmpo ac sy'n fregus neu sydd ag angen meddygol. Mae'r fframwaith cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrdau Iechyd sicrhau bod gwasanaethau ymateb gofal brys ar gael. Bydd WAST yn cefnogi'r gofyniad hwn trwy optimeiddio ei fanyleb lefel 2 (parafeddyg cymwysedig a galwedigaethol neu ffisiotherapydd ar hyn o bryd) a datblygu'r broses o reoli digwyddiadau ymhellach drwy Sgrinio Clinigol Cyflym a RICS, eto gan sicrhau bod cynllun gofal yn ei le sy'n cynyddu diogelwch cleifion i'r eithaf.



## Gwasanaethau Iechyd Meddwl

Mae galwadau iechyd meddwl yn cynrychioli tua 10% o'r galw am ambiwlans ac yn parhau i gynyddu. Mae'r galwadau hyn yn aml yn gymhleth ac yn her sylweddol i weithlu cyffredinol. Mae defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl ddwywaith yn fwy tebygol o brofi amseroedd aros sylweddol nag eraill yn yr amgylchedd hynod anaddas hwn pan fyddant mewn trallod. Fodd bynnag, trwy gyflwyno **Ymarferwyr Iechyd Meddwl** yn ein Desg Gymorth Clinigol, rydym wedi gwneud gwelliannau cadarnhaol gan sicrhau cyfraddau ymgynghori a chau uwch gan leihau'r angen am ambiwlansys a lleihau'r effaith ar Adrannau Achosion Brys a gwasanaethau cyswllt argyfwng iechyd meddwl.



Er y bu gwelliannau sylweddol i gleifion, mae'n dal i fod yn wir y bydd angen asesiad wyneb yn wyneb o hyd ar gyfran o'n galwadau iechyd meddwl. Mewn ardaloedd eraill o'r DU mae **cerbydau ymateb iechyd meddwl** wedi'u cyflwyno i fynd i'r afael â'r angen hwn gan arwain at gyfraddau gweld a thrin uwch a llai o drawsgludiadau i adrannau brys.

Mae ein tîm wedi adolygu canlyniadau o feysydd eraill gyda chyfraddau gweld a thrin sylweddol o

85% gyda 95% o adborth staff cadarnhaol a chanfyddiad 100% gan staff bod defnyddwyr gwasanaeth wedi elwa o'r gwasanaeth.

Fe wnaethom dreialu cerbyd ymateb iechyd meddwl mewn cydweithrediad â BIP Aneurin Bevan, yn 2024 gyda data cynnar yn awgrymu perfformiad yn unol â chanfyddiadau yn Lloegr. Ym mis Tachwedd 2024 fe wnaethom lansio cerbyd ymateb iechyd meddwl ar draws de-ddwyrain Cymru ac rydym yn gwerthuso'r gwasanaeth yn barhaus. Mae data cychwynnol yn awgrymu ymateb a chanlyniadau gwell i'r rhai sy'n profi argyfwng iechyd meddwl.

Yn ogystal, rydym yn parhau i ddatblygu ein cynnig iechyd meddwl ymhellach i sicrhau bod gennym y capasiti a'r gallu i ymateb i **weithrediad y Gofal Cywir, y Person Cywir** ([Link](#)). Mae effaith hyn mewn meysydd lle mae wedi'i weithredu wedi bod yn sylweddol i wasanaethau ambiwlans; o fewn Gwasanaeth Ambiwllans De Orllewin Lloegr maent wedi profi cynnydd o 25% mewn cyswllt iechyd meddwl ac yng Ngwasanaeth Ambiwllans Llundain mae dros hanner eu cerbydau ymateb iechyd meddwl wedi'u dyrannu i ddiwallu'r galw am y Gofal Cywir, y Person Cywir. Rydym yn parhau i fod yn ansicr ynghylch effaith hyn ar ein gwasanaethau gan nad yw pob cam wedi'i weithredu'n llawn ac ni fydd ym mhob maes tan ddiwedd 2025. Heb fwy o adnoddau, mae perygl y bydd cleifion ag anghenion iechyd meddwl yn disgyn rhwng gwasanaethau (Heddlu/GIG/Gwasanaethau Cymdeithasol) ac yn cael eu gadael heb y cymorth a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt gan wneud yr Ymddiriedolaeth yn agored i risgiau sefydliadol.

Byddwn yn parhau i **ddatblygu ein hyfforddiant mewnol ar gyfer ein pobl** i'w cefnogi gyda'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i gefnogi anghenion iechyd meddwl gan gynnwys iechyd meddwl plant a phobl ifanc, iechyd meddwl amenedigol a chyffuriau ac alcohol ac anhwylderau personoliaeth. Rydym wedi cynnig hyfforddiant ystafell ddosbarth rhithwir wythnosol cymorth cyntaf hunanladdiad i holl staff yr Ymddiriedolaeth yn ystod y flwyddyn hon.

Byddwn yn parhau i ddatblygu amgylcheddau ambiwlans sy'n deall dementia drwy adeiladu ar waith sylfaen a wnaed ledled Cymru. Mae cyd-gynhyrchu gyda rhwydweithiau dementia, staff, partneriaid wedi ein galluogi i ystyried adeiladu cyfleoedd therapi celf, cerddoriaeth a hel atgofion o fewn ein gwasanaethau, gan greu amgylcheddau mwy therapiwtig. Mae hyn hefyd wedi creu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth ein gweithlu i gefnogi gofal sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn i'r bobl y mae dementia yn effeithio arnynt.

Mae ein ffocws ar gyfer y dyfodol yn parhau gyda chydweithio cryf ag amrywiaeth o bartneriaid i fapio a gwella'r daith i bobl y mae dementia yn effeithio arnynt drwy ein gwasanaethau, gyda gwaith penodol yn ymwneud â chwympiadau ac eiddilwch; archwilio ffyrdd y gallwn osgoi a dargyfeirio pobl o adrannau gofal brys lle bo'n briodol; a sut rydym yn darparu gwasanaethau gofal integredig a diogel o bell.

## Llwybrau Byrddau Iechyd

Fel y nodir yn y bwriadau comisiynu, byddwn yn gweithio gyda'r Rhaglen Chwe Nod a'r Byrddau Iechyd ar ffrydiau gwaith trawsnewidiol, yn benodol i ddatblygu dulliau amgen o reoli cleifion sy'n cyflwyno cyflyrau sy'n gofyn am ymyriadau, ymhlith ymyriadau eraill:

- Gofal diwedd oes
- Ymyriadau diffyg anadl
- Ymyriadau poen yn y frest

...lle bo'n ddiogel ac yn briodol gwneud hynny.

**Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd**



Byddwn yn parhau i gefnogi cleifion gartref lle bynnag y bo modd. Bydd ein gweithwyr clinigol proffesiynol yn gyrru llai o filltiroedd ac yn cefnogi llwybrau gofal amgen. Byddwn yn adeiladu ar lwyddiant ein datrysiadau fflyd arloesol, gan archwilio pob cyfle i ddatblygu fflyd allyriadau isel, amlbwrpas a phriodol, tra'n sicrhau bod diogelwch cleifion yn parhau i fod ar flaen y gad o ran cyflawni.

Amcan yr IMTP	Blwyddyn 1 (CADARN)	Blwyddyn 2 (AMLINELLIAD)	Blwyddyn 3 (DANGOSOL)
Asesu, gofal a chludiant o ansawdd uchel, yn syth neu'n amserol lle bo angen	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Model cyfun <b>Cerbyd Ymateb Iechyd Meddwl (MHRV)</b> wedi'i werthuso gydag argymhellion i'w ehangu drwy gydol 2025-2027</li> <li>• 10 <b>Parafeddyg Gofal Lliniarol (PCPs)</b> yn cael eu defnyddio ar draws pedwar bwrdd iechyd erbyn Ch3</li> <li>• <b>Model PCP</b> wedi'i werthuso yn Ch4</li> <li>• <b>Gwasanaeth Cwmpïadau Lefel Un (Ymatebydd Cwmpïadau)</b> ag adnoddau trwy gydol 2025-27</li> <li>• <b>Gwasanaeth Cwmpïadau Lefel Dau (Ymatebydd Cwmpïadau Uwch)</b> wedi'i ddatblygu drwy gydol 2025-27</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd model cyfun <b>Cerbyd Ymateb Iechyd Meddwl (MHRV)</b> yn cael ei werthuso gydag argymhellion ar gyfer ehangu</li> <li>• <b>Bydd PCPs yn cael eu defnyddio</b> mewn un bwrdd iechyd arall</li> <li>• <b>Gwasanaeth Cwmpïadau Lefel Un</b> ag adnoddau trwy gydol 2025-27</li> <li>• <b>Gwasanaeth Cwmpïadau Lefel Dau</b> wedi'i ddatblygu drwy gydol 2025-27</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Ymateb Iechyd Meddwl</b> wedi'i adolygu i sicrhau cynaliadwyedd a gwerth</li> <li>• <b>Bydd PCPs yn cael eu defnyddio</b> ym mhob bwrdd iechyd</li> </ul>
Amrywiaeth o lwybrau 24/7 ar gael ar gyfer asesiad neu driniaeth bellach, yn nes at y cartref	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd <b>Llyw-wyr APP ym mhob Bwrdd Iechyd</b>, wedi'i integreiddio'n llawn i ganolfannau tim amlddisgyblaethol y Byrddau Iechyd, yn dechrau yn ystod 2025/26</li> <li>• Bydd <b>nifer yr APPs yn cynyddu</b>, i ddarparu ar gyfer TAPPs sy'n dod trwy eu cymwysterau, erbyn Ch4</li> <li>• <b>Mecanweithiau ar gyfer mesur perfformiad</b> ac ymarfer clinigol ein Hymarferwyr Parafeddygol Uwch (APPs) wedi'u sefydlu erbyn diwedd Ch4</li> <li>• Bydd gwaith gyda byrddau iechyd i ddatblygu <b>llwybrau amgen</b> yn parhau drwy gydol 2025-28</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Bydd Llyw-wyr APP</b> yn cael eu lleoli ym mhob Bwrdd Iechyd, wedi'u hintegreiddio'n llawn i ganolfannau tim amlddisgyblaethol Byrddau Iechyd</li> <li>• Cynyddu niferoedd APP ymhellach yn unol â modelu (yn amodol ar gyllid)</li> <li>• <b>Rheolaethau archwilio a chydymffurfuedd</b> i ddangos sicrwydd clinigol a rhagnodi diogel</li> <li>• Gweithio gyda byrddau iechyd i ddatblygu <b>llwybrau amgen</b></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Bydd prosesau archwilio effeithiol ar gyfer pob agwedd ar Ymarfer Uwch yn cael eu hymgorffori gan alluogi adolygiad o drefniadau DPP</li> <li>• Gweithio gyda byrddau iechyd i ddatblygu <b>llwybrau amgen</b></li> </ul>

## 4.6 Gwasanaethau cludiant di-frys

### Sut olwg sydd ar dda

- Mae cleifion cymwys yn derbyn gwasanaeth cludiant prydlon, modern i'w hapwyntiadau gyda systemau archebu ac olrhain hawdd
- Mae cleifion y mae angen eu trosglwyddo o un ysbyty i'r llall yn cael eu cludo i'r lle iawn yn gyflym ac yn ddiogel, sy'n helpu ysbytai i reoli llif
- Mae cleifion yn cael eu cludo adref yn ddiogel heb gyfnodau aros hir



### Beth fydd yn wahanol?

- Bydd pob safon gwasanaeth ar gyfer amseroldeb yn cael ei ragori
- Gwell effeithlonrwydd - llai o gansladau ar y diwrnod
- Bydd yr holl drosglwyddiadau rhwng safleoedd yn cael eu darparu o fewn yr amser penodedig
- Bydd cyfraddau boddhad cleifion wedi cynyddu



Mae Gofal Ambiwllans yn cwmpasu ein Gwasanaethau Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS), Gwasanaeth Gofal Brys, Gwasanaeth Cwmpsiadau Lefel 1 yr Ymddiriedolaeth, a gwasanaeth trosglwyddo pwrpasol rhwng safleoedd ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB). Mae'r gwasanaethau hyn yn chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau llif systemau a mynediad cleifion at ofal wedi'i gynllunio.

Fel rhan o'n rhaglen trawsnewid model clinigol integredig, bydd hefyd yn datblygu elfen trafndiaeth iechyd i ddarparu cludiant i gleifion yn dilyn cais am ofal heb ei drefnu a lle gellir trefnu apwyntiad wedi'i gynllunio.

### Gweledigaeth Gofal Ambiwllans: byddwn yn adeiladu ein gweledigaeth fewnol ein hunain ar gyfer Gofal Ambiwllans.

Bydd hyn yn cynnwys diffiniad clir a dealltwriaeth o ystyr Gofal Ambiwllans a'i wasanaethau cyfansoddol, sut maen nhw'n rhyngddibynnol ond hefyd wedi'u hamlinellu a sut maent yn cyd-fynd â'r gwaith sy'n dod i'r amlwg ym maes trafndiaeth iechyd.

#### Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd

Byddwn yn parhau i archwilio cyfleoedd ar gyfer cerbydau allyriadau is. Bydd ein cymysgedd newidiol o fflyd Gofal Ambiwllans yn ceisio darparu cerbydau llai a fydd yn cefnogi hyn. Bydd gwaith pellach ynghylch lleihau nifer yr achosion o ganslo ar y diwrnod yn cyfrannu at ein hallyriadau carbon is.

**NEPTS: Rydym yn bwriadu parhau â'n taith wella** drwy; ein huchelgeisiau, gan ymateb i'n bwriadau comisiynu a'r weledigaeth genedlaethol ar gyfer cludiant cleifion di-frys, a ddatblygwyd gan Gyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru yn 2025. Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu y byddwn yn gwneud y canlynol;

- Optimeiddio ein defnydd o adnoddau gan sicrhau ein bod **yn gwneud y mwyaf o'n capasiti, a'n heffeithlonrwydd** i'n galluogi i gyflawni ar gyfer ein cleifion. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu adolygiad rhestr ddyletswyddau ac adolygu ac ailgynllunio'r model darparu gwasanaeth presennol i'w ddefnyddio gan bartneriaid allanol (model lluosogrwydd); adolygu ein systemau a'n dulliau i reoli'r darparwyr gan sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu gwerth gorau tra hefyd yn adolygu yn erbyn ein rhestrau ddyletswyddau gweithredol i sicrhau bod gennym yr adnoddau gorau posibl i fodloni ein galw. Mae'n braf gweld bod y gwasanaeth wedi cyflawni balans ariannol yn y flwyddyn ddiwethaf, gan gywiro gorwariant blaenorol. Nid yw hynny wedi bod heb yr angen i gyflwyno a gweithredu Cynllun Rheoli Capasiti gyda newid yn ein dull o reoli defnyddwyr gwasanaeth anghymwys. Gan ein bod wedi gweld y galw am gleifion



a gludir gan stretsieri yn cynyddu, bydd yn hollbwysig bod ein comisiynwyr yn adolygu trefniadau ariannu ar gyfer y gwasanaeth y gellir ei wneud ochr yn ochr â datblygu'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaethau hyn. Byddwn yn defnyddio dadansoddeg ragfynegol i ragweld y galw er mwyn ein galluogi i gynllunio'n effeithlon ar gyfer ein cleifion.

- **Trosoli technoleg** i wella cydgysylltu a phrofiad y claf (manyllion yn adran 7), gweithredu llwyfannau newydd i gael mynediad at wasanaethau trafniadaeth, cymwysiadau symudol a fydd yn galluogi cleifion i archebu, olrhain a rheoli eu cludiant, gan ddarparu diweddariadau amser real i roi gwybod i bobl am eu statws trafniadaeth. Byddwn yn manteisio i'r eithaf ar ein cyfleoedd i integreiddio ein systemau amserlennu â Byrddau Iechyd i gysoni argaeledd trafniadaeth ag angen a rheoli gofynion trafniadaeth yn fwy effeithiol.
- Byddwn yn gweithio gyda Byrddau Iechyd a'r rhaglen Chwe Nod i sicrhau bod NEPTS yn cael ei integreiddio i brosesau cynllunio rhyddhau, gan ddod â chamau allweddol i mewn i gynlluniau cyfarwyddiaeth neu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig.

**Cludiant Iechyd:** Rhan allweddol o'n model clinigol esblygol a fydd yn cefnogi darpariaeth cludiant yn dilyn canlyniad asesiad clinigol lle mae'r anghenion ar gyfer y cleifion yn hysbys, mae'r gofyniad sgiliau ambiwlans yn hysbys, gan alluogi ymyriadau gofal brys mewn ffordd sydd â mwy o drefn. Felly byddwn yn gwneud defnydd gwell o'n gallu i reoli gofal brys fel 'cludiant iechyd', gan drefnu ymatebion ambiwlans cymunedol.



**Trosglwyddo a Rhyddhau:** Cydweithio â chomisiynwyr a darparwyr gwasanaethau eraill i ddatblygu model gwasanaeth sy'n ariannol gynaliadwy sy'n sicrhau trosglwyddiadau amserol rhwng cyfleusterau. Mae'r teithiau hyn yn hanfodol i sicrhau llif ar draws y system.

Yn gynyddol, fel y disgrifir yn adran 4.6.1 isod, mae Byrddau Iechyd yn datblygu modelau gwasanaeth newydd sy'n gweld gwasanaethau wedi'u canoli a mwy o angen am symud rhwng safleoedd ysbytai. Ein cynllun a'r gofyn yn y gorffennol fu datblygu gwasanaeth Cymru gyfan penodol. Fodd bynnag, mae bwriadau comisiynu wedi symud ymlaen dros y pedair blynedd diwethaf wrth i wasanaethau ddatblygu ar draws GIG Cymru ar ôl pandemig COVID-19. Ar ôl gwerthuso'r allbynnau o foddelu un gwasanaeth Cymru gyfan penodol yn 2024, rydym bellach yn deall y gofyniad gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth penodedig ac yn y cyd-destun ariannol presennol efallai nad yw'r cynnydd mewn adnoddau sydd ei angen yn realistig.

Felly, mae angen i ni ailgysylltu â Byrddau Iechyd drwy'r Cyd-Gyngor Cydweithredol a Gweithrediaeth y GIG ar ganlyniadau ein gwaith modelu presennol a thrafod model ar gyfer y dyfodol sy'n cyd-fynd â'r galwadau sy'n dod yn sgil newid gwasanaethau strategol a rhanbartholi dros y tair blynedd nesaf.

Bydd yr ymgysylltu hwn yn arwain at waith gyda chomisiynwyr ar ddatblygu model yn y dyfodol ar gyfer **gwasanaethau Trosglwyddo a Rhyddhau** yn unol â bwriadau comisiynu'r Cyd-bwyllgor Comisiynu ar gyfer EMS, NEPTS ac ACCTS (gwasanaeth Trosglwyddo Gofal Critigol Cymru Gyfan a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe). **Bydd model a chynllun gweithredu arfaethedig yn cael eu datblygu drwy gydol 2025/26 i'w cyflawni ym mlynnyddoedd 2 a 3.**

Amcan yr IMTP	Blwyddyn 1 (CADARN)	Blwyddyn 2 (AMLINELLIAD)	Blwyddyn 3 (DANGOSOL)
Gweledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau Gofal Ambiwlans sy'n cefnogi trawsnewid iechyd a gofal ehangach	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweledigaeth fewnol ar gyfer gwasanaethau Gofal Ambiwlans wedi'i chytuno yn Ch2</li> <li>Cynlluniau i ymateb i ofnion y weledigaeth genedlaethol ar gyfer cludiant di-argyfwng a'r weledigaeth fewnol ar gyfer Gofal Ambiwlans wedi'u datblygu a'u rhoi ar waith drwy gydol 2025-27</li> <li>Cytunir ar ffurf fflyd Gofal Ambiwlans yn y dyfodol a datblygir cynllun cyflawni erbyn diwedd Ch4</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i weithredu cynllun i ymateb i weledigaeth NEPTS a gweledigaeth gofal ambiwlans mewnol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwerthusiad o weledigaeth NEPTS hyd yma</li> </ul>
Gwasanaeth trosglwyddo a rhyddhau sy'n cefnogi Byrddau Iechyd gyda'u hagendâu trawsnewid	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweledigaeth fewnol ar gyfer gwasanaethau trosglwyddo a rhyddhau wedi'i hadolygu erbyn diwedd Ch1</li> <li>Cytunir ar y model trosglwyddo a rhyddhau arfaethedig yn fewnol erbyn diwedd Ch4</li> <li>Bydd ymgysylltu'n digwydd â byrddau iechyd drwy gydol 2025/26</li> <li>Cyfle i ddatblygu desg trawma mawr 24/7 wedi'i asesu erbyn diwedd Ch4</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithredu cynllun ar gyfer gwasanaethau trosglwyddo a rhyddhau gan gynnwys Hwb Trosglwyddo Clinigol (yn amodol ar gyllid allanol)</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Canlyniadau trosglwyddo 2025 a 2026 i fusnes fel arfer ar gyfer gwireddu buddion</li> </ul>
Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys hyblyg, sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr, gyda'r galluedd cywir yn ei le i ddiwallu'r galw	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygiad rhestr ddyletswyddau NEPTS wedi'i gwblhau erbyn diwedd Ch2</li> <li>Adolygu a diweddarau'r model lluosogrwydd presennol erbyn diwedd Ch4</li> <li>Adolygiad o aliniad NEPTS a Gwasanaeth Gofal Brys wedi'i gwblhau gyda chynllun cyflawni erbyn diwedd Ch4</li> <li>Atebion digidol i wella profiad cleifion yn cael eu mabwysiadu yn NEPTS erbyn diwedd Ch4</li> <li>Data a mewnwelediadau i wella cydgysylltu a gwneud penderfyniadau gyda byrddau iechyd drwy gydol 2025/26</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i weithio gyda byrddau iechyd i wneud y mwyaf o gyfleoedd i integreiddio amserlennu NEPTS a Byrddau Iechyd</li> <li>Gweithredu offer dadansoddi data i fonitro a gwerthuso perfformiad NEPTS yn barhaus</li> <li>Dadansoddeg ragfynegol i ragwel galw a dyrannu adnoddau n effeithlon</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu, gwerthuso ac addasu systemau i sicrhau'r perfformiad a'r effaith orau bosibl</li> </ul>


### 4.6.1 Sut y bydd cynlluniau strategol Byrddau Iechyd yn effeithio arnom ni?

Mae ein gwasanaethau'n cael eu cydnabod fel ffactor allweddol sy'n galluogi newidiadau trawsnewidiol ar draws y system i alluogi mynediad at wasanaethau cynaliadwy ledled y wlad; gan gydweithio i sicrhau llwybrau diogel ac effeithiol i mewn i wasanaethau tra hefyd yn cynllunio ar gyfer y galw ychwanegol am drosglwyddo, dychwelyd a rhyddhau lle bo angen.

Rydym yn parhau i weithio ar y cyd ac yn rhagweithiol gyda Byrddau Iechyd, rhaglenni rhanbarthol a Rhwydweithiau Clinigol i gefnogi newidiadau strategol, trawsnewidiol i wasanaethau (cenedlaethol, rhanbarthol a lleol) ledled Cymru i sicrhau'r canlyniadau a'r profiad gorau posibl i bobl Cymru.

Mae angen i ni barhau i fod yn hyblyg o ran newid ond yn realistig yng nghyd-destun y galw ar ein gwasanaeth a'r capasiti i gyflawni newid yn gyflym. Byddwn yn ystyried yr ystod lawn o newidiadau strategol i wasanaethau yng Nghymru wrth i ni ddatblygu opsiynau i gefnogi trosglwyddo a rhyddhau rhwng cyfleusterau mewn cydweithrediad â'r system.

Mae'r map uchod yn rhoi trosolwg o'r prif raglenni gwaith newid gwasanaeth lle'r ydym yn cydweithio â sefydliadau partner. Er mwyn cynllunio'n effeithiol, mae'n bwysig cael cyfathrebu amserol ac ystyrlon, a byddwn yn canolbwyntio adnoddau i gydgyssylltu ein rôl mewn cynllunio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ar draws ardaloedd Byrddau Iechyd a rhwydweithiau'r GIG.



## 4.7 Parodrzydd, Gwynwch ac Ymateb Brys a gweithrediadau arbenigol



Fel ymatebwyr Categori Un o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, **rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i baratoi ar gyfer argyfwng.** Mae argymhellion Ymchwiliad Arena Manceinion wedi bod yn ffocws sylweddol, a nodwyd bod 68 ohonynt yn berthnasol i'r Ymddiriedolaeth. O'r rhain, mae angen cymorth ariannol ychwanegol ar 18 ohonynt a chyflwynwyd yr achos dros hyn i'n comisiynwyr ym mis Awst 2024, tra bod modd darparu'r gweddill o fewn y galluoedd presennol, sy'n bosibl ac a fydd yn digwydd.

Byddai defnydd llawn o bob un o'r 18 argymhelliad yn caniatáu i'r Ymddiriedolaeth ddangos ei dysgu o'r Ymchwiliad ac mewn sefyllfa dda i'r Ymddiriedolaeth ymateb yn effeithiol i achosion o anafiadau torfol. Argymhellodd Ymchwiliad Arena Manceinion y dylai gwasanaethau ambiwlans gyflwyno eu hadolygiad o argymhellion Ymchwiliad Arena Manceinion i'w comisiynwyr, i ystyried goblygiadau ariannu argymhellion nad ydynt o fewn yr adnoddau presennol sydd ar gael i WAST. Mae adolygiad Ymchwiliad Arena Manceinion yr Ymddiriedolaeth wedi'i gyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru gyda Chyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru yn sefydlu panel adolygu arbenigol/cymheiriaid i ystyried cyflwyniad yr Ymddiriedolaeth.

Amcan yr IMTP	Blwyddyn 1 (CADARN)	Blwyddyn 2 (AMLINELLIAD)	Blwyddyn 3 (DANGOSOL)
Cyflawni ein gofynion statudol ar gyfer argyfyngau sifil posibl, gan sicrhau ein bod yn barod trwy brofi, dysgu a hyfforddi	<ul style="list-style-type: none"> <li>Parhau i gynllunio a pharatoi ar gyfer digwyddiadau mawr yn unol â chyfrifoldebau'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl a chydweithio â'r Cyd-bwyllgor Comisiynu ar ddatblygiadau pellach parodrzydd ac ymateb i ddiwyddiadau mawr ee Ymchwiliad Arena Manceinion ac Ymchwiliad Grenfell trwy gydol 2025-28</li> </ul>		

## 4.8 Gwirfoddolwyr

Yn ei phedwaredd flwyddyn, mae strategaeth wirfoddoli'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol, **gan wreiddio gwirfoddolwyr yn #TîmWAST.** Bydd blwyddyn olaf strategaeth yn 2025/26 yn canolbwyntio ar fireinio gwasanaethau gwirfoddol, datblygu llwybr gwirfoddoli-i-yrfa, a lansio system rheoli gwirfoddolwyr newydd. Bydd hyn yn cyd-fynd â'n Hamcan Llesiant i fod yn gyflogwr cymdeithasol gyfrifol.

Nod mentrau recriwtio yw cynyddu nifer yr **Ymatebwyr Cyntaf yn y Gymuned. Ymatebwyr Lles Cymunedol a Gyrrwyr Ceir Gwirfoddol,** yn cefnogi gwasanaethau 999 ac 111.


Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed cynnydd ar dreialu ein **Gwasanaeth Ceir Gwirfoddol sy'n canolbwyntio ar oncoleg.** Mae'r peilot hwn wedi gweld gyrrwyr gwirfoddol yn cael eu paru â chlaf oncoleg am gyfnod eu triniaeth, a all para sawl wythnos neu fisoedd i rai cleifion. Ceir adborth cychwynnol gwych, ac felly mae'r Ymddiriedolaeth yn awyddus i ddatblygu hyn ymhellach yn y flwyddyn i ddod.



Wrth symud ymlaen o 2026/27 ymlaen bydd angen i ni **ddatblygu'r Cynllun Gwirfoddoli nesaf,** gan adeiladu ar lwyddiant y strategaeth flaenorol. Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gynllun cyflawni'r Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau.

## 5. Ein pobl

### Amcan strategol 2 – Galluogi ein pobl i fod y gorau y gallant fod



### 5.1 Proffil ein gweithlu

Ar hyn o bryd mae WAST yn cyflogi tua 4401 o bobl (o gymharu â 4400 ym mis Ionawr 2024). Y grŵp staff mwyaf yw Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol ar 47.89% (51% Ion 2024), sy'n cynnwys ein Cynorthwyyr Gofal Ambiwlans (ACA1/ ACA2s), Technegwyr Meddygol Brys o bob gradd, a Gweithredwyr Galwadau, ac yna ein grŵp staff Proffesiynol Perthynol i lechyd ar 27.94% (27% Ionawr 24), sy'n cynnwys ein parafeddygon. Mae hyn yn gynydd o 7.81% mewn swyddi o gymharu â mis Rhagfyr 2020.

Mae 51.29% o'n gweithlu yn fenywod, sy'n gynydd o 5.39% ers mis Rhagfyr 2020. Mae 20.91% o'r gweithlu yn rhan-amser, sydd wedi cynyddu ychydig ers y llynedd (cynydd o 0.76%). Mae 21.64% o'n gweithlu yn 56 oed neu'n hŷn, sy'n awgrymu proffil gweithlu sy'n heneiddio y bydd angen ei reoli'n ofalus. Ein rolau anoddaf eu recriwtio yw Parafeddygon cymwys ar gyfer rolau CHARU, Cynghorwyr Clinigol 111 (nyrsys), Arbenigwyr TG ac Arbenigwyr Digidol.

Yn 2024, fe wnaethom gynhyrchu Cynllun Gweithlu Strategol WAST 2024-2030. Mae'r ddogfen arweiniol hon yn amlinellu heriau a blaenoriaethau ein gweithlu. Yn y cynllun rydym wedi cysylltu ein sbardunau strategol, cyflenwad y gweithlu presennol ac yn y dyfodol, rhagamcanion galw a nodau sefydliadol.

Mae ein rhagdybiaethau dros y ddwy flynedd nesaf yn seiliedig ar ychydig neu ddim twf ar gyfer Gofal Ambiwlans a thwf cyfyngedig ar gyfer ein Gwasanaethau Meddygol Brys (EMS), a anelir at ein gwasanaeth Uned Ymateb Aciwtedd Uchel Cymru (CHARU) ac Ymarfer Uwch. Mae ein Hadolygiad Galw a Chapasiti diweddaraf yn nodi twf cymedrol yn ein canolfannau cyswllt i gefnogi ein model clinigol newydd gyda chynnydd mewn rolau gofal clinigol o bell.

Rhaid i ni dybio hefyd y bydd y trosglwyddiad yn parhau i fod yn uwch nag yr hoffem o ystyried yr heriau a brofir ar draws y system. Mae hyn yn ein gorfodi i ariannu'r newidiadau sydd eu hangen arnom yn ein gwasanaeth drwy ad-drefnu adnoddau presennol; gan ein galluogi i sicrhau bod modelu ein gweithlu yn gwneud y mwyaf o'r ysgogiadau yn ein rheolaeth i gynnal a gwella lefelau trosglwyddo.


Mae ein Grŵp Cynllunio Technegol Integredig yn dod â chydweithwyr ar draws y sefydliad at ei gilydd i weithio ar y darlun cyfannol gan gynnwys sgiliau clinigol, addysg a hyfforddiant, cynllunio, timau fflyd ac ystadau i sicrhau bod y sefydliad yn mabwysiadu dull cydgysylltiedig o'i adnoddau allweddol. Mae hyn yn cefnogi dull traws-swyddogaethol o ddatblygu a defnyddio ein gweithlu i wneud y mwyaf o'u heffaith a'u cynhyrchiant.

Rydym hefyd yn arwain ar y grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar gymysgedd sgiliau ein criwiau rheng flaen yng nghyd-destun ein model clinigol esblygol a mabwysiadu swydd-ddisgrifiad technegydd band 5 yng Nghymru (gweler adran 4.3).

## 5.2 Pobl a Diwylliant

### Ymrwymiadau i'n pobl


Bu'n ymrwymiad o fewn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig i fynd i'r afael â thri mater allweddol yn seiliedig ar adborth a gawsom drwy ymgysylltu, arolygon a pherthnasoedd Undebau Llafur. Mae'r materion hyn yn dal yn bwysig i'n pobl, ac maent yn parhau i fod yn ymrwymiadau yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2025-28. Fodd bynnag, rydym yn gweld gweithio hyblyg fel ymrwymiad yr ydym yn awr yn ei gyflawni a byddwn yn cynnal adolygiad o bolisi Cymru Gyfan a'i effaith ar WAST.



Yn lle hynny eleni rydym wedi ymrwymo i wella rhyngweithio un i un gyda'n pobl.

- **Sifftiau'n gor-redeg:** Yn 2023/24, gwnaethom gynydd mewn rhai ardaloedd yng Nghymru drwy roi 'mannau cadw' ar waith ar gyfer egwyliau staff a throsglwyddo ar ddiwedd sifft, gyda chleifion yn derbyn gofal gan staff ambiwlans penodedig ger yr Adran Achosion Brys. Fodd bynnag, prin yw'r ardaloedd hyn o hyd mewn ysbytai yng Nghymru, ac mae lefelau uchel o oedi wrth drosglwyddo yn parhau i achosi sifftiau i or-redeg. Mae hyn yn gorfodi staff i weithio oriau ychwanegol neu geisio 'amser i ffwrdd yn lle hynny', gan effeithio ar gapasiti gwasanaeth EMS. Rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen gyda staff ac Undebau Llafur i ddod o hyd i atebion, a disgwylir allbynnau yn Ch2. Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio â'n partneriaid yn y Bwrdd Iechyd a'r tasglu cenedlaethol i fynd i'r afael ag achos sylfaenol sifftiau'n gor-redeg (oedi wrth drosglwyddo).
- **Profiad Digidol:** rydym wedi cymryd camau breision wrth ddatblygu offer a hyfforddiant i gefnogi llythrennedd digidol ac awtomeiddio prosesau. Mae 'cofrestru untro', Gorsafoedd Clyfar a Strategaeth Sgiliau Digidol yn rhai o'r blaenoriaethau y byddwn yn canolbwyntio arnynt wrth gyflawni ein Cynlluniau Pobl a Diwylliant a Digidol (adran 7).
- **Sgyrsiau un i un:** Trwy Ein Ffordd WAST, bydd sgyrsiau un i un rheolaidd yn cael ei ymgorffori i fynd i'r afael â heriau staff, gwella cymhelliant a lles, ac adeiladu amgylchedd gwaith cefnogol trwy ddeialog agored a datrys problemau ar y cyd.

Rydym yn parhau i gyflawni ein Cynllun Pobl a Diwylliant drwy tri pheth:  
**Diwylliant, capasiti a gallu.**



### Diwylliant

Drwy gydol 2024-25, rydym wedi **parhau i gryfhau ein gallu mewnol i ysgogi newid diwylliant**, gan harneisio angerdd ac egni ein rhwydweithiau pobl llewyrchus. Yn 2025-28 byddwn yn datblygu gallu a chpasiti newid ymhellach yn ffurfiol ac yn anffurfiol, i gefnogi'r prosiectau a'r gweithgareddau trawsnewid niferus ar draws y sefydliad.

Mae **tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant** yn thema graidd ac yn llinyn aur sy'n rhedeg trwy bopeth a wnawn, ac mae'n parhau i fod felly. **Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn un o elfennau allweddol ein Cynllun Pobl a Diwylliant.** Ochr yn ochr ag ymgorffori tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein harferion bob dydd (trwy **gyflawni ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol**), rydym wedi ymrwymo i ysgogi cyflawni ein cynlluniau gweithredu statudol yn llwyddiannus. Bydd mentrau penodol hefyd yn cynnwys partneru â sefydliadau addysg uwch i **gynyddu amrywiaeth myfyrwyr** a lansio **ymgyrchoedd wedi'u targedu i ddenu ymgeiswyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd** ar gyfer yr ystod lawn o gyfleoedd gyfa o fewn WAST. Bydd Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn parhau i lywio ein penderfyniadau strategol a byddwn yn sicrhau ymwybyddiaeth o rôl **Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb** drwy ddogfen gyfeirio aseiad effaith a lansiwyd yn ddiweddar ar ein mewnwyd.

**Mae cynyddu diogelwch rhywiol a mynd i'r afael â chasineb at fenywod yn feysydd allweddol o waith heriol ac emosiynol** yr ydym wedi ymrwymo'n llwyr i fynd i'r afael â hwy. Rydym yn **ddiwyro yn ein hymroddiad i greu amgylchedd lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag risg**; mae hyn yn cynnwys creu diwylliant lle mae cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i leisio barn a rhannu pryderon, gan sicrhau yr eir i'r afael â'r holl faterion yn rhagweithiol a'u hymchwilio'n drylwyr lle bo angen.

Yn ddiweddar fe **wnaethom gyflogi Gwarcheidwad Arweiniol** i annog a galluogi cydweithwyr i godi llais am bryderon mewn ffordd ddiogel a chefnogol. Mae'r fenter hon wedi cyfrannu at **gynydd yn nifer y materion a godwyd**, gan adlewyrchu symudiad cadarnhaol tuag at ddiwylliant mwy tryloyw ac atebol. Mae cydweithwyr yn codi pryderon trwy amrywiaeth o lwybrau, sy'n cyd-fynd â'n nod o wella diogelwch seicolegol ar draws yr Ymddiriedolaeth. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, er bod y cynnydd hwn yn galonogol, **mae'r llwyth gwaith cysylltiedig yn cynyddu**, wrth i nifer yr achosion godi. I gefnogi hyn, rydym wedi sefydlu Cyfarwyddwr Newid Diwylliant am gyfnod penodol ac wedi ychwanegu **tri Swyddog Ymchwilio penodedig cyfnod penodol**. Rydym wedi ymrwymo i ymhelaethu ar leisiau ein cydweithwyr trwy Godi Llais heb Ofn yn ogystal â'r Arolwg Staff ar ein Rhwydweithiau Pobl, sydd oll yn parhau i fod yn ysgogiadau llwyddiant sylfaenol dros y blynyddoedd.

Mae ein pwyslais ar **ddatblygu Partneriaeth Gymdeithasol** yn **cael effaith gadarnhaol ar berthnasoedd**. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnal a chryfhau ymddiriedaeth ac ymgysylltiad â'n partneriaid; bydd cynnal cynhadledd ym mis Mawrth 2025 yn rhan greiddiol o hyn ac rydym yn falch o rannu ein stori yn y Fforwm Arweinyddiaeth Ambiwlansydd ar ddod. Bydd y flwyddyn i ddod yn dod â rhai materion heriol y bydd angen i ni ymdrin â hwy mewn partneriaeth â'n hundebau llafur ac felly, mae ein ffocws parhaus ar wella ein dull gydweithredol a chydgyhyrchu at weithio mewn partneriaeth yn hanfodol bwysig. Elfen allweddol o sut yr ydym yn symud ymlaen yn ymarferol mewn partneriaeth yw cyflawni'r camau gweithredu yn ein cynllun presennol a hwyluswyd ac a ddatblygwyd gydag ACAS.

Byddwn hefyd yn parhau i gynnal **adolygiadau diwylliannol i daflu goleuni ar feysydd rhagoriaeth** a nodi cyfleoedd ar gyfer twf. Bydd yr adolygiadau hyn yn ein galluogi i ddatlu a lledaenu arfer gwyd tra hefyd yn cynnal ffocws ar welliant parhaus. Wrth wraidd y gwaith hwn mae ein hymrwymiad diwyro i **creu amgylchedd lle mae cydweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u grymuso** i gyfrannu at sefydliad sy'n esblygu ac yn ffynnu.

Amcan yr IMTP	Blwyddyn 1 (CADARN)	Blwyddyn 2 (DANGOSOL)	Blwyddyn 3 (AMLINELLOL)
Sefydlu ein <b>Diwylliant</b> fel y ffordd yr ydym yn cyflawni ein pwrpas	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynllun Cydraddoldeb Strategol 24-28 (Cynllun 4 Blynedd) ar waith drwy gydol 2025-28</li> <li>Cymru Wrth-hiliol, LHDTC+, Anabledd, Safonau Nam ar y Synhwyrau, y Lluoedd Arfog, Dyletswydd Cyfamad, cynlluniau Bil Absenoldeb Gofalwyr wedi'u gweithredu drwy gydol 2025/26</li> <li>Datblygu a gweithredu prosesau ac arferion newydd i wella ein hymagwedd at ymhelaethu ar leisiau cydweithwyr drwy gydol 2025/26</li> <li>Ehangodd ac ymwreiddiwyd ein hymagwedd arferion tosturiol drwy gydol 2025/26</li> <li>Cynllun Iechyd a Lles yn cael ei weithredu drwy gydol 2025-29</li> <li>Cynllun gweithredu ACAS (partneriaeth gymdeithasol) wedi'i gyflwyno drwy gydol 2025-28</li> <li>Cynllun Diogelwch Rhywiol wedi'i gyflwyno drwy gydol 2025-28</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 24-28 (camau blwyddyn 2)</li> <li>Cyflwyno cynlluniau gweithredu cysylltiedig â Thegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn barhaus</li> <li>Gwerthuso effaith a pharhau i gyflwyno arferion tosturiol yn ôl yr angen, gan fynd i'r afael ag unrhyw feysydd o berfformiad is</li> <li>Cynllun Iechyd a Lles 25-29 (camau gweithredu Bl 2) Cyflwyno a rhoi'r cynllun gweithredu ACAS ar waith (camau gweithredu bl 2)</li> <li>Adolygu tirwedd diogelwch rhywiol mewnol ac allanol ac addasu ymyriadau fel y bo'n briodol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 24-28 (camau bl 3)</li> <li>Adolygu a sicrhau Cydymffurfedd â Gofynion Statudol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Chynhwysiant ac Ymgysylltu</li> <li>Cynllun Iechyd a Lles 25-29 (camau gweithredu blwyddyn 3)</li> <li>Ymrwymiad i weithio tuag at Achrediad SEQOSH o Ansawdd Diogel ac Effeithiol erbyn 2027/28 (yn amodol ar gyllid)</li> <li>Cyflwyno a gweithredu cynllun gweithredu ACAS (camau gweithredu blwyddyn 3)</li> <li>Adolygiad parhaus o dirwedd diogelwch rhywiol mewnol ac allanol ac addasu ymyriadau fel y bo'n briodol</li> </ul>

## Capasiti

Mae meithrin gallu'r gweithlu yn hanfodol wrth gyflawni ein nodau sefydliadol i leihau cludo diangen a darparu modelau gofal arloesol ac i gefnogi hyn, dros y tair blynedd nesaf byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni ein Cynllun Gweithlu Strategol, gan ystyried yn fanwl y cyfansoddiad presennol ac yn y dyfodol o ran a gwella ein hymagwedd at recriwtio a chadw, ehangu rolau gwirfoddoli a chryfhau partneriaethau. Er mwyn sicrhau dull wedi'i theilwra sy'n mynd i'r afael ag anghenion proffesiynol unigryw, byddwn hefyd yn datblygu cynlluniau gweithlu penodol ar gyfer pob Cyfarwyddiaeth. Rydym hefyd yn datblygu ein gallu trwy systemau gwell, gan gyflawni cynllun y prosiect i ddisodli system Cofnod Staff Gweithwyr (ESR) ac archwilio system rheoli achosion ar gyfer cysylltiadau gweithwyr.

Bydd parhau i gefnogi gweithio hyblyg ac adolygu buddion gweithwyr yn ein helpu i gyflawni ein nodau o ddenu a chadw ymgeiswyr o ansawdd uchel a gwella profiad cyffredinol gweithwyr. Mae swyddi canolfannau galwadau GIG 111 a 999 yn ffocws arbennig oherwydd natur y rôl, cyflogau is a recriwtio a chadw gwael. Byddwn yn canolbwyntio ar recriwtio'r ymgeisydd iawn a bod yn realistig gydag ymgeiswyr am yr heriau a wynebir yn y rolau hyn, tra'n amlygu'r llwybrau gyrfa a'r manteision a ddaw yn sgil gweithio mewn rôl o'r fath yn y GIG.

Mae cynhyrchiant yn allweddol i gapasiti'r gweithlu, gan gynnwys arferion gwaith effeithlon, salwch a throsiant. Mae'r holl gamau gweithredu ar draws Diwylliant, Gallu a Chapasiti wedi'u cynllunio i greu amgylchedd gwaith sy'n cefnogi presenoldeb da, datblygiad a chadw pobl. Fodd bynnag, mae rhai targedau i'w cyflawni yn ein cynllun gan gynnwys rheoli presenoldeb, taflenni amser digidol (targedau i'w cyflawni wedi'u cynnwys yn adran 7) a chadw staff (yn canolbwyntio i ddechrau ar y gymuned nyrsio yn unol â gwaith cadw cenedlaethol).

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar reoli absenoldeb yn unol â gofynion polisi, gan uwchsgilio rheolwyr i gefnogi cydweithwyr sy'n sâl ac i gefnogi ein timau gweithredol rheng flaen i fynd i'r afael â'r materion mwyaf sy'n effeithio ar bresenoldeb, fel sifftiau'n gor-reddeg ac oedi wrth drosglwyddo. Bydd camau gweithredu wedi'u targedu i leihau absenoldeb salwch, ynghyd â chymorth iechyd a lles gwell (dan ymbarél ein Cynllun Iechyd a Lles) a chyfluoedd adleoli rhagweithiol yn sicrhau bod cydweithwyr yn cael eu cefnogi i aros yn y gwaith neu ddychwelyd i'r gwaith.

Amcan yr IMTP	Blwyddyn 1 (CADARN)	Blwyddyn 2 (AMLINELLIAD)	Blwyddyn 3 (DANGOSOL)
Sicrhau'r <b>Capasiti</b> cywir sydd ei angen i gyflawni ein diben	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Camau gweithredu o fewn y <b>Cynllun Gweithlu Strategol</b> wedi'u cyflawni drwy gydol 2025/26</li> <li>• <b>Optimeiddio Cofnod Staff Electroneg Cenedlaethol</b>, Prosiect GIG a rhyngwyneb gyda GRS wedi'u datblygu yn Ch1 i'w cyflawni drwy gydol 2025-27</li> <li>• Ymgymryd â pharatoadau ar gyfer Rhaglen Trawsnewid <b>Datrysiadau Gweithlu'r GIG yn y dyfodol</b> yn ystod 2025/26</li> <li>• Adolygiad ôl-weithredu o brosesau Polisi <b>Gweithio Hyblyg</b> Cymru Gyfan yn WAST a gynhaliwyd yn ystod 2025/26</li> <li>• <b>Strategaeth recriwtio</b> wedi'i datblygu erbyn diwedd Ch4</li> <li>• <b>Cynllun gwella presenoldeb</b> wedi'i gyflawni drwy gydol 2025/26</li> <li>• <b>Bydd</b> cynllun cadw nyrsys yn cael ei gyflawni trwy gydol 2025/26</li> <li>• Allbynnau gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen <b>sifftiau'n gor-reddeg</b> a gyflwynir erbyn Ch2</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Parhau i weithredu'r <b>Cynllun Gweithlu Strategol</b> (camau gweithredu blwyddyn 2)</li> <li>• Cynllun gwaith sy'n gysylltiedig ag <b>atebion gweithlu'r GIG</b> wedi'i gyflwyno</li> <li>• Parhau i <b>fonitro ac adolygu data ESR</b>. Ffocws sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth mewn meysydd allweddol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Parhau i weithredu'r <b>Cynllun Gweithlu Strategol</b> (camau gweithredu blwyddyn 3)</li> </ul>

## Gallu

Yr hyn sy'n hanfodol i lwyddiant ein gwaith i gyflawni'r cynllun Pobl a Diwylliant yw sut rydym **yn symud yr arddulliau arwain o ddydd i ddydd awtomatig ar draws ein sefydliad** i arweinyddiaeth fwy tosturiol, cynhwysol a chydweithredol.

Dyma nod *Ein Ffordd WAST*, gan annog arweinwyr i wneud dewisiadau bwriadol ynghylch sut y maen nhw'n arwain yn y modd hwn, gyda'r gallu i addasu arddull mewn rhai sefyllfaoedd fel argyfwng neu yn ystod digwyddiadau. Gyda'r ffocws hwn ar ddysgu a datblygu, bydd **cyflwyno Ein Ffordd WAST** yn ganolog i **feithrin gallu a chymhwysedd arweinyddiaeth ar draws y sefydliad**.



Rydym wedi **ymrwymo i feithrin capasiti a gallu i newid** ar draws y sefydliad drwy ymgorffori dull rheoli newid cadarn; mae hyn yn rhan o'n huchelgais ehangach i broffesiynoli gwasanaethau, gyda ffocws ar **ddatblygu gwybodaeth a sgiliau rheoli newid** i sicrhau bod newid yn cael ei reoli'n effeithiol ar bob lefel. Elfen allweddol o hyn fydd darparu'r cymorth sydd ei angen ar reolwyr i arwain newid yn effeithiol ac arwain eu timau drwyddo. Mae'r dull hwn yn cyd-fynd yn agos â fframwaith datblygu arweinyddiaeth a rheolaeth *Ein Ffordd WAST*, gan sicrhau bod rheoli newid yn effeithiol yn dod yn rhan annatod o'r ffordd y mae ein harweinwyr ar bob lefel o'r sefydliad yn gweithio, yn hytrach nag yn rhywbeth ychwanegol. Yn ogystal, rydym yn darparu llwyfan ar gyfer grymuso lleol trwy ein Cymuned Newid, gan helpu cydweithwyr i gymryd perchnogaeth o newid yn eu hardaloedd eu hunain. Mae hyn yn gysylltiedig â'n gwaith parhaus gydag Arolwg Staff GIG Cymru a rhwydweithiau cydweithwyr, lle rydym yn **ymhelaethu ar leisiau cydweithwyr ac yn ysgogi mwy o gydweithio**.

Dros y tair blynedd nesaf byddwn yn **cefnogi'r Rhaglen Trawsnewid Model Clinigol** o safbwynt pobl a diwylliant. Bydd hyn yn cynnwys ymagwedd gynhwysfawr sy'n cynnwys rheoli newid yn effeithiol, cymorth Gwasanaethau Pobl, Addysg a Datblygiad, Datblygu Sefydliadol a diwylliant yn ogystal â Chynllunio Gweithlu effeithiol. **Bydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn rhan annatod** o ddylunio a chynllunio gwasanaethau, gan sicrhau bod pob agwedd ar ein taith drawsnewid a'n model clinigol esblygol yn **gynhwysol ac yn hygyrch i bawb** (gan gynnwys ein cleifion a'n pobl). Drwy gyflawni ein Cynllun Iechyd a Lles, byddwn yn blaenoriaethu Iechyd a Lles Galwedigaethol, gan greu amgylchedd cefnogol sy'n galluogi cydweithwyr i ffynnu ac addasu i'r newidiadau sydd o'n blaenau.

Er mwyn **cryfhau ein fframwaith addysg a datblygu ymhellach**, byddwn yn adolygu ac yn diweddarau ein darpariaeth dysgu digidol bresennol, yn ehangu ein rhaglen brentisiaeth ac yn ehangu cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus ar draws yr Ymddiriedolaeth. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, byddwn yn cefnogi datblygu

